ASA

Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Cymru (Ail argraffiad)

2009

QAA 307 08/2009

Cyhoeddwyd gan:
Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
Southgate House
Southgate Street
Caerloyw GL1 1UB

Ffôn 01452 557000
Ffacs 01452 557070
Ebost comms@qaa.ac.uk
Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2009

ISBN 978 1 84979 012 3

Mae holl gyhoeddiadau'r ASA ar gael ar ein gwefan www.qaa.ac.uk

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Cynnwys

Rhagair

Adolygiad Sefydliadol **1**

Nodau ac amcanion Adolygiad Sefydliadol **2**

Crynodeb o'r broses Adolygiad Sefydliadol **3**

Darpariaeth gydweithredol **3**

Addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach **4**

Rhaglen dreigl o adolygiadau **4**

Yr amserlen adolygiadau **4**

Ffocws Adolygiad Sefydliadol **4**

Gwybodaeth **6**

Beirniadaethau a sylwadau **6**

Nodweddion penodol y broses Adolygiad Sefydliadol ddiwygiedig **8**

Defnyddio pwyntiau cyfeirio 8

Llwybrau adolygu 9

Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig 10

Gwelliant 10

Sut mae'r broses yn gweithio **11**

Adolygwyr a thimau adolygu 11

Yr hyrwyddwr sefydliadol 12

Dogfen hunanwerthusiad 13

Cyflwyniad y myfyrwyr 13

Paratoi ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol **13**

Yr ymweliad briffio 14

Yr ymweliad adolygu 15

Adolygiad Sefydliadol a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg **16**

Adroddiadau **16**

Atodiad A: Amlinelliad o'r broses Adolygiad Sefydliadol **19**

Atodiad B: Canllawiau ar gyfer cynhyrchu'r ddogfen hunanwerthusiad **20**

Atodiad C: Gwybodaeth **23**

Atodiad D: Strwythur yr adroddiad Adolygiad Sefydliadol **26**

Atodiad E: Y meini prawf ar gyfer beirniadaethau am hyder, a'r berthynas rhwng beirniadaethau am hyder, argymhellion a gweithredu dilynol **27**

Atodiad F: Ymgysylltiad y myfyriwr â'r Adolygiad Sefydliadol **30**

Atodiad G: Gwelliant **34**

Atodiad H: Dewis a hyfforddi timau adolygu **36**

Atodiad I: Yr hyrwyddwr sefydliadol **38**

Atodiad J: Protocolau ar gyfer rhaglen dreigl o adolygiadau **41**

Atodiad K: Dilyniant canol-rhaglen **42**

Atodiad L: Adolygiad Sefydliadol a Chynllun Iaith Gymraeg ASA **44**

Atodiad M: Y cefndir, yr egwyddorion a'r broses lle mae darpariaeth gydweithredol yn weithgaredd adolygu hybrid neu ar wahân **45**

Atodiad N: Amserlen y dyddiadau allweddol ar gyfer adolygu darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd hybrid **50**

Atodiad O: Amserlen y dyddiadau allweddol ar gyfer adolygu darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd ar wahân **51**

Atodiad P: Strwythur adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol lle ystyrir darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd ar wahân **52**

Atodiad Q: Strwythur ar gyfer dogfen hunanwerthusiad yr Adolygiad Sefydliadol cydweithredol **53**

Rhagair

Cenhadaeth yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yw diogelu diddordeb y cyhoedd mewn cymwysterau addysg uwch (AU) o safon gref a hysbysu ac annog gwelliant parhaol yn y rheolaeth ar ansawdd AU. I'r perwyl yma, mae ASA yn gwneud Adolygiadau Sefydliadol o sefydliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru. Mae'r trefniadau ar wahân ar gyfer archwilio sefydliadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi'u disgrifio yn y *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol: Lloegr a Gogledd Iwerddon 2009* a'r *Llawlyfr Adolygiad Sefydliadol wedi'i Arwain gan Welliant: Yr Alban 2008*. Bydd sefydliadau yng Nghymru sy'n tanysgrifio i ASA yn cymryd rhan yn y broses Adolygu Sefydliadol.

Gan y darparwyr AU mae'r prif gyfrifoldeb am amddiffyn safonau academaidd ac ansawdd eu dyfarniadau; mae ASA yn gweithio gyda nhw i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae Adolygiad Sefydliadol yn broses wedi'i seilio ar dystiolaeth a wneir drwy adolygiad cymheiriaid. Cafodd ei ddatblygu gyda chymorth Gweithgor Ansawdd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sydd â chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector AU yng Nghymru. Cafodd ei ddatblygu yng nghyd-destun y cylchred blaenorol o adolygiadau oedd yn rhedeg o 2003 hyd 2009, ac mae'n adeiladu ar hwn.

Mae'r Adolygiad Sefydliadol yn cydbwyso'r angen am waith craffu trwyadl, annibynnol a chyhoeddus gredadwy ar y sefydliadau gyda'r gydnabyddiaeth mai'r sefydliadau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n ddilys a dibynadwy i randdeiliaid am ansawdd academaidd eu dyfarniadau ac ansawdd eu darpariaeth addysgol. Mae Adolygiad Sefydliadol yn annog sefydliadau i'w gwerthuso eu hunain ac, o'r herwydd, mae'n broses sydd, ynddi ei hun, yn cynnig cyfleoedd i wella rheolaeth sefydliadol ar safonau ac ansawdd. Yn ganolbwynt i'r broses yma mae pwyslais ar fyfyrwyr a'u cyfleoedd dysgu.

Cafodd y llawlyfr yma ei ddatblygu gan ASA mewn partneriaeth â CCAUC, Addysg Uwch Cymru (AUC) yn dilyn ymgynghoriad eang â'r sector. Mae'n disgrifio'r broses ddiwygiedig o Adolygiad Sefydliadol a fydd yn gweithredu, o fewn cyd-destun 'rhaglen dreigl', yng Nghymru o 2009-10 lle caiff pob sefydliad eu hadolygu o fewn chwe blynedd.

Adolygiad Sefydliadol

1 Mae'r llawlyfr yma'n disgrifio'r broses Adolygiad Sefydliadol i Gymru o 2009-10. Mae'n ddiwygiad o'r broses Adolygiad Sefydliadol a redodd o 2003-04 hyd 2008-09. Cafodd effaith ac effeithlonrwydd y cylchred adolygu blaenorol ei werthuso yn 2007-08 gan ymgynghorwyr a benodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cafodd yr adroddiad am y canfyddiadau gan yr ymgynghorwyr ei ystyried gan Weithgor Ansawdd CCAUC ac arweiniodd at yr argymhellion yng nghylchlythyr CCAUC: *W09/01HE.*

2 Mae'r llawlyfr yn rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhellion a gafwyd gan Weithgor Ansawdd CCAUC. Dyma brif newidiadau'r dull adolygu o'r dull blaenorol:

- mwy o ffocws ar wella cyfleoedd dysgu myfyrwyr (paragraffau 38-43 ac Atodiad G)
- cyflwyno adolygwyr sy'n fyfyrwyr (paragraff 45 ac Atodiad H)
- ystyried Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd a chyfarwyddyd arall sy'n ymwneud ag arferion Ewropeaidd neu ryngwladol eraill (paragraffau 6 a 30)
- cyflwyno rhaglen dreigl ar gyfer adolygiadau (paragraff 9 ac Atodiad J)
- symud tuag at ymagwedd sy'n seiliedig ar risg, gan leihau'r amser rhwng adolygiadau, pan gafwyd dyfarniad o hyder cyfyngedig neu ddiffyg hyder (paragraffau 10, 75-78 ac Atodiad E)
- rôl well ar gyfer yr hwylusydd sefydliadol (paragraffau 50-51 ac Atodiad I)
- mwy o ffocws ar raglenni gradd ymchwil (paragraffau 36-37)
- dau ddyfarniad ar wahân, un ar 'ansawdd' a'r llall ar 'safonau academaidd y dyfarniadau', yn lle dyfarniadau 'ansawdd a safonau' sengl (paragraff 14)
- opsiwn o gael datganiad myfyriwr blynyddol gan y corff sy'n cynrychioli'r myfyrwyr, i fynd law yn llaw â chyflwyniad y myfyrwyr ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol (Atodiad F)
- cyflwyno adolygiad ar y cyd ar wahân a hybrid fel rhan o'r broses Adolygiad Sefydliadol (paragraff 7 ac Atodiadau M-Q).

3 Mae'r newidiadau yma'n adlewyrchu datblygiad o gylchred cyntaf Adolygiad Sefydliadol gan ganolbwyntio'n fwy eglur ar welliant a chyfleoedd dysgu i fyfyrwyr, ond gan gadw hefyd yr angen am drefniadau sicrhau ansawdd cadarn.

Nodau ac amcanion Adolygiad Sefydliadol

4 Nod y broses Adolygiad Sefydliadol ddiwygiedig yma yw darparu gwybodaeth sy'n diwallu diddordeb y cyhoedd mewn gwybod bod gan sefydliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru ddulliau effeithiol o:

- sicrhau bod y dyfarniadau a'r cymwysterau mewn AU o safon academaidd sy'n gyson â'r *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) (Awst 2008) a, lle bo'n berthnasol, eu bod yn arfer eu pwerau fel cyrff dyfarnu graddau mewn dull priodol
- ddarparu cyfleoedd dysgu o ansawdd sy'n cyflawni disgwyliadau'r Seilwaith Academaidd (gwelwch baragraffau 25 i 28) ac sy'n galluogi myfyrwyr, a ydynt yn fyfyrwyr a ddysgir neu'n fyfyrwyr ymchwil, i dderbyn dyfarniad, neu gredyd penodol tuag at ddyfarniad, gan gorff dyfarnu
- wella ansawdd eu darpariaeth addysgol, yn arbennig drwy adeiladu ar wybodaeth a gafwyd drwy fonitro, adolygiadau mewnol ac allanol, ac adborth gan randdeiliaid.

5 Amcanion y broses yma yw:

- sicrhau bod safonau academaidd dyfarniadau a chymwysterau AU, gan gynnwys rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, gan sefydliadau AU yng Nghymru wedi'u cynnal a'u rheoli'n gadarn, lle bynnag y cânt eu darparu
- galluogi myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill i deimlo'n hyderus bod rheolaeth gadarn ar ansawdd y cyfleoedd dysgu a gynigir drwy'r rhaglenni astudio, yn rhai a ddysgir ac yn rhai ymchwil, sy'n arwain at ddyfarnu credydau a chymwysterau
- sicrhau bod cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr yn ganolog i ganolbwynt Adolygiad Sefydliadol
- cyfrannu, mewn cydweithrediad â mecanweithiau a chyrff eraill mewn AU, at hybu a gwella ansawdd mewn dysgu, addysgu ac asesiad
- sicrhau bod myfyrwyr, cyflogwyr ac eraill yn gallu cael gafael yn hawdd ar wybodaeth gyhoeddus ddibynadwy, ystyrlon sy'n hawdd ei deall yn dangos i ba raddau y mae sefydliadau AU yng Nghymru'n cynnig rhaglenni astudio, dyfarniadau a chymwysterau yn unigol sy'n cyflawni disgwyliadau cenedlaethol mewn perthynas â safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth
- sicrhau, os canfyddir bod gwendidau sylweddol yn y ffordd y rheolir safonau academaidd neu yn ansawdd y ddarpariaeth, bod y broses yn gweithredu fel sail ar gyfer sicrhau gweithredu i'w wella
- darparu dull o sicrhau atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus a dderbynnir gan sefydliadau AU
- cydnabod cyd-destun addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* ac y gallai AU yng Nghymru gael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg
- darparu proses effeithlon a chost-effeithiol i CCAUC a sefydliadau
- lleihau'r baich ar sefydliadau lle bo'n bosibl.

Crynodeb o'r broses Adolygiad Sefydliadol

6 Mae Adolygiadau Sefydliadol yn archwilio:

- pa mor effeithiol yw mecanweithiau a strwythurau sicrhau ansawdd mewnol sefydliad, yng nghyd-destun Seilwaith Academaidd y Deyrnas Unedig (DU) a'r *Safonau a Chanllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop* (ESG), a gyhoeddwyd gan ENQA (Rhwydwaith Ewropeaidd i Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch), a'r ffordd y mae ansawdd ei ddarpariaeth addysgiadol a safonau academaidd ei ddyfarniadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'r argymhellion a geir o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gyhoeddus am gryfder sefydliad fel corff darparu cymwysterau AU o safon genedlaethol a rhyngwladol
- pa mor effeithiol yw dull sefydliad o adeiladu'n systematig ar ganlyniadau ei drefnau sicrhau ansawdd mewnol, ar ganfyddiadau adroddiadau adolygiadau allanol, ac ar wybodaeth ac adborth arall gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr, er mwyn datblygu a gweithredu dulliau sefydliadol o wella ansawdd darpariaeth
- cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth y mae sefydliad yn ei chyhoeddi am safonau academaidd ei ddyfarniadau ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgiadol
- y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.*

Darpariaeth gydweithredol

7 Lle bo'n ymarferol, mae proses yr Adolygiad Sefydliadol yn ymwneud â'r ddarpariaeth a gynigir gan sefydliad mewn cydweithrediad â darparwyr eraill, yn y DU a thramor. Fodd bynnag, lle mae ASA yn ystyried na ellir ymdrin yn gywir â darpariaeth gydweithredol sefydliad fel rhan o'r model Adolygiad Sefydliadol safonol, bydd yn gwneud naill ai adolygiad ar wahân o reolaeth y sefydliad ar ei ddarpariaeth gydweithredol ar amser sydd i gael ei drefnu rhwng ASA a'r sefydliad, neu bydd Adolygiad Sefydliadol hybrid yn digwydd, a fydd yn cynnwys ymweliadau â cholegau partner fel rhan o'r adolygiad. Gwneir y penderfyniad ynglŷn â'r ffordd y caiff y ddarpariaeth gydweithredol ei hadolygu yn fuan ar ôl cytuno ar y dyddiadau ar gyfer adolygiad sefydliadol: oddeutu blwyddyn cyn yr Adolygiad Sefydliadol. Rhoddir mwy o wybodaeth am adolygiad y ddarpariaeth gydweithredol yn Atodiadau M-Q. Mae ASA yn disgwyl parhau gyda'i raglenni presennol o adolygiadau o'r cysylltiadau partneriaeth penodol rhwng sefydliadau'r DU a darparwyr tramor.

Addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach

8 Fel ymarfer perthnasol ond ar wahân bydd ASA yn dechrau datblygu dull adolygu yn 2009-10 ar gyfer addysg uwch sydd wedi'i hariannu'n uniongyrchol mewn colegau addysg bellach. Bydd y dull adolygu yma'n adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd yn 2007-08 pan wnaeth ASA Adolygiadau Datblygiadol o addysg uwch a ariennir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach yng Nghymru.

Rhaglen dreigl o adolygiadau

9 Bydd y broses Adolygiadau Sefydliadol yn gweithredu ar sail rhaglen dreigl o adolygiadau yn hytrach na chylchred sefydlog. Bydd rhaglen dreigl yn darparu mwy o hyblygrwydd ac yn ei gwneud hi'n bosibl cyflwyno newidiadau, lle bo'n briodol, i'r broses adolygu heb orfod aros tan ddiwedd cylchred. Bydd unrhyw newidiadau mawr a gyflwynir yn ystod y rhaglen adolygiadau'n atebol fel arfer i ymgynghoriad â'r holl bartïon sydd â diddordeb. Mae'r protocolau i gefnogi'r ystyriaeth a gweithrediad newidiadau i'r dull adolygu i'w gweld yn Atodiad J.

Yr amserlen adolygiadau

10 Bydd ASA yn cytuno gyda sefydliadau unigol beth fydd eu lle yn rhaglen adolygiadau cyn i'r rhaglen gychwyn. O fewn y rhaglen adolygiadau bydd pob sefydliad sydd wedi derbyn beirniadaeth o hyder yn y cylchred blaenorol o adolygiadau'n cael eu hadolygu eto fel arfer o fewn chwe blynedd i'w Hadolygiad Sefydliadol diwethaf. Tair blynedd ar ôl yr adolygiad, bydd angen i'r sefydliad perthnasol gyflwyno adroddiad ar weithredoedd a wnaed mewn ymateb i'r adroddiad ac unrhyw ddatblygiadau perthnasol eraill, a bydd yn derbyn ymweliad byr gan ASA i drafod y materion hyn (Atodiad K). Lle mae sefydliadau wedi derbyn barn o hyder cyfyngedig byddent fel arfer, yn dilyn y dull sail risgiau, yn cael eu hadolygu eto o fewn pedair blynedd i'r adolygiad blaenorol. Lle mae sefydliadau wedi derbyn barn o ddim hyder byddent, yn dilyn y dull sail risgiau, yn cael eu hadolygu eto fel arfer o fewn dwy flynedd i'r adolygiad blaenorol. I gael rhagor o fanylion am y trefnau dilynol ar ôl Adolygiad Sefydliadol, gwelwch baragraffau 73 i 80 ac Atodiad E.

11 Mae Adolygiad Sefydliadol yn ymwneud â rheolaeth sefydliad ar ddiogelwch safonau academaidd ei ddyfarniadau ac ar ansawdd y cyfleoedd dysgu y mae'n eu darparu i alluogi myfyrwyr i gyrraedd y safonau hynny. Bydd timau adolygu'n canolbwyntio eu gwaith archwilio yn y meysydd sydd wedi'u rhestru isod.

Ffocws Adolygiad Sefydliadol

12 Bydd timau adolygu'n edrych am dystiolaeth o ymwneud gofalus, difrifol a phroffesiynol ar ran y sefydliad, ar y meysydd sydd wedi'u henwi isod, gyda'r pwrpas o sicrhau bod safonau academaidd dyfarniadau ac ansawdd y ddarpariaeth yn cael eu rheoli mewn dull sy'n cynnal hyder y cyhoedd.

Rheolaeth sefydliadau ar safonau academaidd

Bydd hyn yn ymwneud â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol, adolygiadau mewnol ac allanol, polisïau asesu, y Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio eraill, gwybodaeth rheoli a phynciau perthnasol eraill.

Rheolaeth sefydliadau ar gyfleoedd dysgu

Bydd hyn yn ymwneud â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol, adolygiadau mewnol ac allanol, myfyrwyr fel partneriaid mewn rheoli ansawdd, gweithgareddau ymchwil a gweithgareddau a yrrir gan arferion i hysbysu cyfleoedd dysgu, dulliau eraill o astudio (megis dysgu yn y gweithle, dysgu hyblyg a dysgu dosbarthedig), y Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio eraill, gan gynnwys *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, gwybodaeth rheoli, adnoddau dysgu, polisïau mynediad, gweithdrefnau cwyno i fyfyrwyr ac apeliadau academaidd, cefnogaeth i fyfyrwyr, gwerthuso a chefnogi staff, a phynciau perthnasol eraill.

Agwedd y sefydliad tuag at wella ansawdd

Bydd hyn yn ymwneud â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol, adolygiad mewnol ac allanol, y Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio eraill, myfyrwyr fel partneriaid mewn gwella ansawdd, gwybodaeth rheolwyr, lledaenu arferion da, datblygu a gwobrwyo staff, a thopigau perthnasol eraill.

Y trefniadau ar gyfer cynnal safonau academaidd priodol a gwella ansawdd trefniadau cydweithredol

Bydd hyn yn ymwneud â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol, adolygiad mewnol ac allanol o drefniadau cydweithredol, y Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio eraill, y defnydd a wneir o wybodaeth rheolwyr gan gynnwys adborth, a thopigau perthnasol eraill.

Trefniadau'r sefydliad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

Bydd hyn yn ymwneud â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol, adolygiad mewnol ac allanol o'r ddarpariaeth ymchwil, trefniadau arolygu, myfyrwyr ymchwil fel partneriaid mewn rheoli ansawdd, y Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio eraill, gwybodaeth rheoli gan gynnwys adborth, a thopigau perthnasol eraill.

Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi

Bydd hyn yn ymwneud â'r dull o sicrhau cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth gyhoeddedig, profiad myfyrwyr o wybodaeth gyhoeddedig a gwybodaeth arall yn ymwneud â'u rhaglenni astudio, a thopigau perthnasol eraill.

Gwybodaeth

13 Bydd gan dîm adolygu amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth ar gael iddo, sy'n cynnwys:

- dogfen hunanwerthusiad (DH) wedi'i chyhoeddi gan y sefydliad sy'n amlinellu ei ddull o reoli diogelwch safonau academaidd ei ddyfarniadau ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgiadol, ac sy'n cynnig barn am effeithiolrwydd y dull hwnnw. Bydd mynegai i'r DH yn cynnwys cyfeiriad at ddogfennau cyfredol sydd wedi'u henwi gan y sefydliad i ddangos ei ddull ac i ddarparu tystiolaeth o'i farn am effeithiolrwydd y dull hwnnw
- lle mae ar gael, cyflwyniad fel y mae wedi'i baratoi gan gynrychiolwyr y corff myfyrwyr (paragraff 54-55 ac Atodiad F)
- unrhyw ddogfennau allweddol (megis Cynllun Strategol, Llawlyfr Ansawdd neu gyfatebol) y mae'r sefydliad eisiau eu cyflwyno gyda'i DH fel cefndir neu ddefnydd cyfeirio
- adroddiadau y gellir cael gafael arnynt yn uniongyrchol gan ASA am y sefydliad neu ei ddarpariaeth, megis y rheiny a gynhyrchir gan ASA a chyrff perthnasol eraill, gan gynnwys cyrff proffesiynol, statudol a rheoli (PSRB) o fewn y chwe blynedd cyn yr adolygiad
- yr wybodaeth AMC a'r wybodaeth am Ansawdd Addysgu fel y mae wedi'i disgrifio yn Atodiad C.

Beirniadaethau a sylwadau

14 Bydd y timau adolygu'n pasio barn am:

- yr hyder y gellir ei roi yn rhesymol yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau, a'r
- hyder y gellir ei roi'n rhesymol yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr.

15 Mae barn tîm adolygu'n ymwneud â'r ffordd y mae sefydliad yn sicrhau bod ei safonau academaidd wedi'u diogelu gan waith ei arholwyr, yn fewnol ac allanol, wedi'i feirniadu yn erbyn pwyntiau cyfeirio'r Seilwaith Academaidd. Mae barn y tîm hefyd yn ymwneud â'r ffordd y mae'r sefydliad yn sicrhau bod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr o ansawdd priodol, yng nghyswllt yr arweiniad yn y Seilwaith Academaidd. Yn y cyd-destun yma, cymerir mai ystyr 'cyfleoedd dysgu' yw effaith gyfun y rhaglenni astudio a'r gefnogaeth academaidd a phersonol i'r myfyrwyr.

16 Pan fydd tîm adolygu'n canfod bod sefydliad yn rheoli diogelwch safonau academaidd yn gadarn ac yn effeithlon, a lle mae'n ymddangos yn debygol y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol, byddai disgwyl iddo fynegi ei 'hyder'. Yn yr un modd, lle mae tîm adolygu'n canfod bod sefydliad yn rheoli ansawdd cyfleoedd dysgu'r myfyrwyr yn gadarn ac yn effeithiol, a lle mae'n ymddangos yn debygol y bydd hyn yn parhau yn y dyfodol, byddai disgwyl iddo fynegi ei 'hyder' yma hefyd. Ymhob achos mae barn o hyder yn dangos bod y sefydliad, ym marn ASA, yn eu rheoli'n effeithiol ac mewn ffordd gyson.

17 Mae dau faes lle bydd timau adolygu'n ei chael hi'n arbennig o anodd mynegi hyder os byddent yn gweld bod elfennau penodol ar goll. Y cyntaf o'r rhain yw defnydd cryf a gofalus o arholwyr allanol annibynnol mewn trefnau asesu adolygol. Yr ail yw defnydd tebyg o gyfranogwyr allanol annibynnol mewn trefnau rheoli ansawdd mewnol, gyda chyfeiriad arbennig at arweiniad a ddarperir gan y *Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd academaidd a safonau mewn addysg uwch (Cod Ymarfer), Adran 7: Cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglen*, a gyhoeddwyd gan ASA. Yn y ddau achos, mae'r pwyslais ar fodloni annibyniaeth ac allanoldeb fel ei gilydd.

18 Pan fydd gan dîm adolygu amheuon sylweddol am y rheolaeth gyfredol ar ddiogelwch y safonau academaidd a/neu ansawdd y ddarpariaeth, a/neu am reolaeth y naill un neu'r llall o'r rhain yn y dyfodol, bydd yn rhoi barn o 'hyder cyfyngedig' a bydd yn dangos yn glir ymhle mae'r meysydd pryder hynny sydd wedi achosi cyfyngiad o'r fath ar hyder. Mae beirniadaeth o hyder cyfyngedig yn dangos bod yna dystiolaeth i ddangos bod gallu'r sefydliad i reoli safonau academaidd ei ddyfarniadau yn gadarn ac effeithlon a/neu bod ansawdd ei ddarpariaeth addysgiadol yn gyfyngedig ar hyn o bryd neu'n debygol o fynd yn gyfyngedig yn y dyfodol. Dylid pwysleisio nad yw barn o hyder cyfyngedig yn farn o fethiant ond mae'n dangos bod angen gwneud gwelliannau.

19 Pan fydd gan dîm adolygu bryderon difrifol am y rheolaeth gyfredol ar ddiogelwch safonau academaidd a/neu ansawdd y ddarpariaeth, a/neu am y rheolaeth ar y naill neu'r llall o'r rhain yn y dyfodol, bydd yn rhoi barn o 'ddim hyder', a bydd yn dangos yn glir y mannau lle mae pryder sylweddol sydd wedi achosi'r farn yma. Mae beirniadaeth o 'ddim hyder' yn dangos bod yna dystiolaeth sylweddol o wendidau difrifol a sylfaenol yng ngallu'r sefydliad i sicrhau safonau academaidd ei ddyfarniadau a/neu i gynnal ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Mae tystiolaeth i ddangos mai prin iawn yw'r achosion o safonau darpariaeth academaidd anfoddhaol neu fethiant mewn AU yn y DU, ond lle maen nhw'n digwydd, mae hawl i fyfyrwyr a rhanddeiliaid eraill wybod amdanynt.

20 Mae'r meini prawf ar gyfer beirniadaethau o hyder i'w gweld yn Atodiad E. Mae'r beirniadaethau, a'r meini prawf sy'n eu penderfynu, yn gyson â'r beirniadaethau a'r meini prawf oedd yn berthnasol yng nghylchred blaenorol yr Adolygiad Sefydliadol.

21 Bydd timau adolygu'n rhoi sylwadau hefyd yn benodol ar:

- drefniadau'r sefydliad ar gyfer cynnal ansawdd a safonau academaidd priodol y ddarpariaeth rhaglenni ymchwil ôl-raddedig
- ddull y sefydliad o wella ansawdd ei ddarpariaeth addysgiadol, yn ddarpariaeth a ddysgir ac yn waith ymchwil
- faint y gellir dibynnu'n rhesymol ar gywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth gyhoeddus y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi am ansawdd ei raglenni addysgol a safonau ei ddyfarniadau.

22 Os bydd yr adolygiad yn cynnwys darpariaeth gydweithredol y sefydliad (paragraff 7 ac Atodiadau M-Q), bydd y beirniadaethau a'r sylwadau'n berthnasol i ddarpariaeth gydweithredol, a bydd hyn wedi'i ddangos yn glir yn yr adroddiad, heblaw bod y tîm adolygu'n ystyried bod unrhyw rai o'i feirniadaethau neu ei

sylwadau sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth gydweithredol yn wahanol i'r rheiny sy'n ymwneud â darpariaeth 'gartref' y sefydliad. Bydd unrhyw wahaniaethau o'r fath wedi'u hadlewyrchu yn y math o eiriau a ddefnyddir i fynegi beirniadaeth neu sylw. Pan fydd y ddarpariaeth gydweithredol wedi'i hadolygu ar wahân, bydd esboniad clir bod beirniadaethau a sylwadau'r Adolygiad Sefydliadol yn ymwneud â darpariaeth y sefydliad ar ei gampws/gampysau ei hun yn unig.

23 Bydd adroddiadau Adolygiadau Sefydliadol yn cynnwys argymhellion i'r sefydliad eu hystyried ymhellach, a byddent yn enwi arferion da y mae'r tîm adolygu'n teimlo eu bod yn gwneud cyfraniad arbennig o gadarnhaol i ddull y sefydliad o reoli diogelwch safonau academaidd ac o wella ansawdd y ddarpariaeth yng nghyd-destun y sefydliad hwnnw.

24 Bydd yr argymhellion wedi'u categoreiddio yn nhrefn eu blaenoriaeth:

- mae argymhellion 'hanfodol' yn cyfeirio at faterion pwysig y mae'r tîm adolygu o'r farn eu bod yn rhoi ansawdd a/neu safonau mewn perygl ar hyn o bryd ac y mae angen eu cywiro ar frys
- argymhellion 'buddiol' sy'n cyfeirio at faterion y mae'r tîm adolygu o'r farn y gallent roi ansawdd a/neu safonau mewn perygl ac sy'n gofyn gweithredu i atal neu gywiro
- argymhellion 'manteisiol' sy'n cyfeirio at faterion y mae'r tîm adolygu o'r farn y gallent wella ansawdd y cyfleoedd dysgu a/neu sicrhau safonau academaidd dyfarniadau ymhellach.

Nodweddion penodol y broses Adolygiad Sefydliadol ddiwygiedig

Defnyddio pwyntiau cyfeirio

25 Bydd timau adolygu'n defnyddio'r Seilwaith Academaidd fel ffynhonnell ar gyfer pwyntiau cyfeirio allanol wrth ystyried dull sefydliad o reoli diogelwch ei safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth. Ni fyddent yn gwneud hynny mewn ffordd fecanistig, nac yn chwilio am gydymffurfiad difeddwl â manylion yr elfennau creiddiol yma yn strwythur AU yn y DU. Bydd timau'n chwilio am dystiolaeth bod sefydliadau wedi ystyried pwrpas a bwriadau elfennau'r Seilwaith Academaidd yn ofalus, wedi myfyrio ar eu heffaith ar arferion sefydliadol, ac wedi cymryd, neu yn cymryd, unrhyw fesurau angenrheidiol i adlewyrchu yn y ffordd orau o fewn arferion y sefydliad yr arweiniad sydd wedi'i ddarparu gan y Seilwaith Academaidd.

26 Bydd y timau adolygu eisiau edrych ar y ffordd mae sefydliadau'n gwirio'r aliniad rhwng safonau academaidd eu dyfarniadau a'r lefelau y cyfeirir atynt yn y FHEQ.

27 Bydd timau adolygu'n archwilio sut mae sefydliadau'n ymgysylltu â'r *Cod Ymarfer*. Bydd tîm yn disgwyl gweld esboniad yn DH y sefydliad o'r ffordd mae'r sefydliad wedi mynd ati i ymdrin ag ysbryd argymhellion y *Cod Ymarfer* yn gyffredinol, gan gynnwys cyfeiriadau i ddangos sut mae unrhyw newidiadau yn ei arferion wedi dilyn o ganlyniad i hyn, a bydd yn trafod unrhyw anawsterau sydd wedi wynebu'r sefydliad.

28 Bydd timau adolygu hefyd yn ymholi am y ffordd y mae unrhyw ddatganiadau meincnod pwnc perthnasol wedi derbyn ystyriaeth wrth i raglenni a dyfarniadau gael eu sefydlu neu eu hadolygu, gan gofio nad yw ASA yn ystyried bod datganiadau meincnod pwnc yn feini prawf rheoli terfynol ar gyfer dyfarniadau neu raglenni unigol. Maent yn parhau i fod yn ddatganiadau o'r hyn y mae'r cymunedau academaidd perthnasol yn eu hystyried yn fframiau cyfeirio dilys y dylid cynnig gradd, ar lefel anrhydedd fel arfer, oddi mewn iddi. Mae angen eu defnyddio yn arbennig o ofalus mewn cyd-destunau rhyngddisgyblaethol neu amlddisgyblaethol, lle gallai defnydd syml neu gyffredinol fod yn amhriodol. Fodd bynnag, maent yn darparu pwyntiau cyfeirio awdurdodol, y bydd disgwyl i fyfyrwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb eu cymryd i ystyriaeth pan gaiff y rhaglenni eu llunio a'u hadolygu.

29 Manylebau rhaglenni yw'r wybodaeth derfynol sydd ar gael yn gyhoeddus am yr amcanion, y canlyniadau dysgu a fwriedir a chyflawniadau disgwyliedig dysgwyr ar raglenni astudio, a bydd timau adolygu eisiau archwilio pa mor ddefnyddiol ydynt i fyfyrwyr a staff, a pha mor gywir yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddynt. Yn arbennig, bydd gan y timau ddiddordeb mewn gweld sut mae manylebau rhaglenni'n defnyddio pwyntiau cyfeirio eraill yn y Seilwaith Academaidd er mwyn diffinio'n glir beth yw'r disgwyliadau ar gyfer yr ymgysylltiad addysgu, dysgu ac asesu rhwng y sefydliad a'i fyfyrwyr.

30 Bydd gofyn i'r timau adolygu roi sylwadau ar y ffordd mae sefydliadau'n ymateb i'r ESG a datblygiadau eraill sy'n ymwneud â safonau academaidd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (EHEA), yn arbennig yng nghyd-destun Proses Bologna.

31 Bydd timau adolygu hefyd yn ystyried ac yn rhoi sylwadau ar y ffordd mae sefydliadau wedi ymgysylltu â *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*.

Llwybrau adolygu

32 Mae timau adolygu'n defnyddio 'llwybro' fel techneg ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ffordd drefnus, o ddogfennau a chyfarfodydd, am brosesau a gweithdrefnau sefydliadol, a'u heffaith. Mae'r llwybrau'n ymwneud â phrofi sut mae prosesau'r sefydliad yn gweithio a pha mor effeithiol ydyn nhw o'u hymarfer, ar lefel leol a drwy'r sefydliad cyfan. Maen nhw'n galluogi'r tîm i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r prosesau sefydliadol y mae gofyn iddynt wneud adroddiad amdanynt (gwelwch Atodiad D). Wrth weithredu ei lwybrau, fe allai'r tîm gasglu gwybodaeth ar lefel disgyblaethau unigol, rhaglenni, a/neu adrannau academaidd.

33 Bydd llwybrau fel arfer yn canolbwyntio ar drefnau adolygu mewnol sefydliad a'u canlyniadau, gan ddefnyddio pa uned o adolygiad mewnol bynnag y mae'r sefydliad yn ei defnyddio, a yw'n gyfadran, yn ysgol, yn adran, yn bwnc neu'n rhaglen, neu unrhyw fath arall o grŵp y mae'r sefydliad yn ei ddewis fel uned adolygu mewnol. Pan fydd sefydliad yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol, ac nad yw hyn yn cael ei drin drwy adolygiad ar wahân, byddai llwybr adolygu fel arfer yn canolbwyntio ar hyn.

34 Mae trafodaeth gychwynnol am ddethol llwybrau yn y cyfarfod cyntaf rhwng y sefydliad a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol. Mae'r tîm adolygu'n dewis y llwybrau'n derfynol yn yr ymweliad briffio a chânt eu cyfathrebu'n ffurfiol i'r sefydliad ar ddiwedd yr ymweliad hwnnw.

Wrth ddewis y llwybrau, mae'r tîm adolygu'n ystyried:

- arwyddion yn y DH neu ddogfennaeth arall o gryfderau neu wendidau posib yn y trefniadau sicrhau ansawdd sefydliadol, fyddai wedi eu harchwilio orau gan y tîm efallai drwy brofi sut mae'r trefniadau hynny'n gweithredu ar lefel leol, neu drwy'r sefydliad cyfan
- prinder eglurder yn y DH am agweddau penodol o drefniadau sicrhau ansawdd y sefydliad, allai gael eu hegluro'n well i'r tîm drwy archwilio sut mae'r agweddau hynny'n gweithredu ar lefel leol, neu drwy'r sefydliad cyfan
- pa mor fanteisiol fyddai hi i ddewis amrediad o lwybrau sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn darparu sampl gynrychiadol dda o drefnau sy'n gweithredu ar lefel leol a thrwy'r sefydliad cyfan.

35 Os bydd unrhyw feysydd sy'n datblygu neu sydd heb eu rhagweld yn ymddangos yn ystod yr ymweliad adolygu, caiff y tîm adolygu grwydro o'r meysydd trafod oedd wedi eu nodi o flaen llaw er mwyn delio gyda'r meysydd hynny.

Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig

36 Bydd y dull Adolygiad Sefydliadol yn asesu ac yn rhoi adroddiad i ddweud i ba raddau y mae trefniadau sefydliadol ar gyfer sicrhau bod safonau academaidd dyfarniadau ac ansawdd darpariaeth mewn rhaglenni gradd ymchwil ôl-raddedig yn gyfunion â'r arweiniad a roddir yn y *Cod Ymarfer, Adran 1: Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig.* Mae'r cyflwyniad i'r adran hon o'r *Cod Ymarfer* yn esbonio bod yr adran 'wedi'i hysgrifennu mewn arddull gadarnach na rhai adrannau eraill, yn arbennig yr argymhellion, i roi arweiniad clir i sefydliadau ar ddisgwyliadau'r cynghorau cyllido, cynghorau ymchwil ac ASA mewn perthynas â rheolaeth, ansawdd a safonau academaidd rhaglenni ymchwil'.

37 Sylwadau ffurfiol tîm adolygu am raglenni ymchwil ôl-raddedig fydd casgliad adran o'r adroddiad Adolygiad Sefydliadol, a bydd yn cyfrannu at y beirniadaethau cyffredinol am hyder.

Gwelliant

38 I bwrpas y dull yma o wneud Adolygiad Sefydliadol, mae gwella ansawdd wedi'i ddiffinio fel y broses o gymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu (Atodiad G). Mae'n ddiffiniad sy'n caniatáu i sefydliadau ddisgrifio eu dulliau eu hunain o sicrhau gwelliant mewn ansawdd a chanfod bod gwelliant wedi digwydd mewn cyfleoedd dysgu.

39 Yn y diffiniad yma o wella ansawdd, mae'r pwyslais ar y ffordd mae sefydliad yn defnyddio cyfleoedd datblygiadol mewn dull cynllunio strategol systematig a chlir y byddai rhywun yn ei ddisgwyl i'r un graddau gan ei reolaeth ar sicrhau ansawdd. Felly, ystyrir gwella ansawdd yn agwedd o reolaeth ansawdd sefydliadol sydd wedi'i lunio i gynhyrchu, o fewn y cyd-destunau unigol y mae sefydliadau'n eu gweithredu, welliannau sefydlog, dibynadwy ac y gellir eu harddangos yn ansawdd y cyfleoedd dysgu.

40 Bydd timau adolygu'n ystyried y ffyrdd y mae dulliau sefydliad o wella ansawdd yn gwneud defnydd systematig o wybodaeth rheoli. Mae gwella ansawdd, fel y mae wedi'i ddiffinio yma, felly, yn ymwneud i raddau mawr â'r ffordd y mae sefydliadau'n casglu, yn dadansoddi ac yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol. Bydd timau'n defnyddio'r llwybrau adolygu i ganfod sut mae sefydliadau'n defnyddio gwybodaeth rheoli i gefnogi gwelliant mewn ansawdd ar lefel rhaglenni.

41 Er ei fod yn cydnabod y bydd gweithredu dulliau sefydliadol o wella ansawdd wedi'i ddangos drwy esiamplau unigol o arferion da mewn addysgu, dysgu ac asesu, bydd gan dimau adolygu fwy o ddiddordeb yn y ffordd mae sefydliadau'n cymryd camau pwrpasol i annog a datblygu gwelliant mewn cyfleoedd dysgu. Mae gwella cyfleoedd dysgu yn digwydd hefyd gan staff sy'n cynhyrchu mentrau gwella'n annibynnol. Mae llwybrau o'r fath tuag at welliant yn gysylltiedig â staff sy'n ymroddedig i wneud gwahaniaeth a gweithredu syniadau da yn hytrach na bod yn gysylltiedig o anghenraid ag agweddau sefydliadol da tuag at wella ansawdd. Efallai y byddai'r llwybrau yma wedi'u gwasanaethau'n well trwy ymgysylltiad â sefydliadau megis yr Academi Ansawdd Uwch sy'n gallu ymdrin â materion o welliant ar nifer o lefelau ar draws sefydliad.

42 Mae gofyn i dimau adolygu roi sylwadau yn benodol ar ddull y sefydliad o wella ansawdd ei ddarpariaeth addysgol, yn ddarpariaeth a ddysgir ac yn waith ymchwil fel ei gilydd. Mae ganddynt felly ddiddordeb mewn dysgu i ba raddau mae sefydliad wedi symud, ac yn symud tuag at ddatblygu agwedd gyson ledled y sefydliad cyfan tuag at bolisi ar gyfer gwella ansawdd darpariaeth yn systematig. Mae'n rhesymol i sefydliadau gyflwyno, fel esiamplau o wella ansawdd fel proses reoli, dulliau cynlluniedig sydd, er eu bod heb ddwyn ffrwyth eto, yn gallu dangos bod ganddynt y potensial i wneud hynny.

Sut mae'r broses yn gweithio

Adolygwyr a thimau adolygu

43 **Swyddogaethau**. Bydd y tîm Adolygiad Sefydliadol yn cynnwys pum adolygwr fel arfer (y bydd un ohonynt yn adolygwr myfyrwyr) ac ysgrifennydd/cydlynydd adolygiad. Yn achos y sefydliadau hynny sydd â darpariaeth estynedig neu gymhleth, efallai y bydd angen cynnwys adolygwyr ychwanegol ar y tîm er mwyn sicrhau bod digon o bobl ar gael i ymdrin â phortffolio gweithgareddau cyfan y sefydliad a hynny er mwyn cyfiawnhau'r beirniadaethau a'r sylwadau a wneir. Ni fydd ysgrifenyddion/cydlynwyr adolygu ac adolygwyr wedi'u penodi'n aelodau ar dimau sy'n adolygu eu sefydliad nhw eu hunain.

44 **Detholiad**. Ar amser y penodi, bydd disgwyl i adolygwyr nad ydynt yn adolygwyr myfyrwyr fod ag arbenigedd a phrofiad cyfredol o addysgu a rheolaeth mewn AU. Disgwylir i adolygwyr myfyrwyr fod yn fyfyrwyr cyfredol (israddedig neu ôl-raddedig), yn gynrychiolwyr myfyrwyr sabothol neu'n raddedigion diweddar (o fewn dwy flynedd). Disgwylir i'r holl dimau gynnwys un aelod sydd â phrofiad diweddar a sylweddol o'r sector AU yng Nghymru. Byddent wedi'u dewis gan ASA o blith enwebiadau a wneir gan sefydliadau'r DU, a'r dybiaeth yw y bydd y sefydliadau, yn gyffredinol, yn awyddus i

gynnig enwau. Mae ASA yn tybied hefyd y bydd sefydliadau yn enwebu pobl sydd â digon o wybodaeth a gallu technegol ac sydd ar lefel ddigon uchel i sicrhau bod adolygiadau wedi'u gweithredu mewn ffordd gymwys, broffesiynol a chredadwy. Bydd meini prawf dewis ar gyfer adolygwyr wedi'u cyhoeddi a gwneir bob cais i sicrhau bod y grŵp adolygu'n adlewyrchu cydbwyseddau yn ymwneud ag ethnigrwydd, iaith, rhyw, daearyddiaeth, disgyblaethu a sectorau.

45 Caiff yr adolygwyr myfyrwyr eu recriwtio'n flynyddol. Bydd ASA yn gwahodd ceisiadau ac enwebiadau gan gyrff cynrychiolwyr myfyrwyr a sefydliadau AU. Bydd adolygwyr myfyrwyr yn gymwys i wneud adolygiadau ar yr amod eu bod yn parhau i gyflawni'r meini prawf dethol, yn arbennig, ar yr amod nad yw'n hirach na dwy flynedd ers iddynt gwblhau eu hastudiaethau mewn sefydliad AU yn y DU.

46 Caiff ysgrifenyddion/cydlynwyr adolygu eu penodi fel arfer o blith staff gweinyddol lefel uwch mewn sefydliadau. Byddent yn darparu cefnogaeth weinyddol ac yn cyflawni'r swyddogaeth gyswllt a chydlynu cychwynnol yn ystod yr ymweliadau â'r sefydliad.

47 **Cyfarwyddwr Cynorthwyol ASA**. Cydlynir pob adolygiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol ASA (CC). Yn y cyfnod cyn yr ymweliad adolygu, mae'r CC yn rhoi cyngor i'r sefydliad am ei baratoadau ar gyfer yr adolygiad, ac yn gweithio gyda'r tîm adolygu ar ddadansoddiad cyntaf y ddogfennaeth. Mae'r CC yn dod gyda'r tîm yn ystod yr ymweliad briffio ac am ran olaf yr ymweliad adolygu, gan ddarparu cyngor fel y bo'n briodol. Cyfrifoldeb y CC yw hi i brofi bod canfyddiadau'r tîm wedi eu cefnogi gan dystiolaeth ddigonol ac adnabyddadwy, a bod adroddiad yr adolygiad yn darparu gwybodaeth mewn ffurf gryno a hawdd cael gafael arni.

48 Mae rhagor o wybodaeth am drefnau recriwtio a dethol i'w cael ar wefan ASA (www.qaa.ac.uk/aboutus/appointments).

49 **Hyfforddiant**. Bydd ASA yn darparu hyfforddiant i adolygwyr, adolygwyr myfyrwyr ac ysgrifenyddion/cydlynwyr adolygu. Pwrpas yr hyfforddiant fydd sicrhau fod pob aelod o'r tîm yn deall nodau ac amcanion y broses adolygu'n llawn; eu bod yn gyfarwydd â'r holl drefnau perthnasol; a'u bod yn deall eu rolau a'u tasgau eu hunain, disgwyliadau ASA ohonynt a'r rheolau ymddygiad sy'n llywodraethu'r broses. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys darparu gwybodaeth benodol am gyd-destun AU yng Nghymru. Bydd effeithiolrwydd yr hyfforddiant, ac effeithiolrwydd y broses ddethol gychwynnol, yn parhau i gael ei werthuso'n ffurfiol. Bydd yr adolygwyr a'r ysgrifenyddion/cydlynwyr adolygu presennol a gaiff eu dethol i aros ar y cofrestri ar gyfer Adolygiad Sefydliadol yn derbyn hyfforddiant yn y broses newydd, gan adeiladu ar eu hyfforddiant blaenorol a'u profiad o ddulliau Adolygiad Sefydliadol cynharach.

Yr hyrwyddwr sefydliadol

50 Gwahoddir sefydliadau i enwebu hyrwyddwr sefydliadol i gysylltu rhwng y tîm adolygu a'r sefydliad ac i roi cyngor ac arweiniad i'r tîm ar strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau sefydliad. Mae mwy o fanylion am rôl yr hyrwyddwr yn Atodiad I.

51 Mae rôl yr hyrwyddwr sefydliadol wedi'i newid fel ei fod/ei bod yn chwarae rôl fwy gweithredol yn yr ymweliad adolygu drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd a fydd yn rhoi cyfleoedd i'r tîm a'r sefydliad i geisio rhagor o eglurhad y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol.

Dogfen hunanwerthusiad

52 Rhoddir templed ar gyfer y DH sefydliadol yn Atodiad B. Mae wedi'i alinio â'r templed ar gyfer yr adroddiad (Atodiad D). Mae'n ymdrin â phrif benawdau'r adroddiad canlyniadau, yn annog dadansoddiad myfyriol o effeithiolrwydd y rheolaeth ar ansawdd a safonau academaidd ac o unrhyw fesurau i wella'r prosesau a ddisgrifir dan y penawdau yma. Dylid cyfeirio at ddogfennau fydd yn darlunio'r materion sydd wedi'u hamlinellu dan y penawdau yma'n fwy manwl.

53 Dylid sicrhau bod y DH ar gael mewn copi caled ac ar ffurf electronig. Dylai fod yn ddogfen sy'n sefyll ar ei phen ei hun, y gall pobl ei deall heb weld y cyfeiriadau, ond rydym yn cydnabod na fydd y darllenydd yn cael dealltwriaeth ddofn o gyflwyniad y sefydliad nes bydd wedi gweld y cyfeiriadau. I gydnabod y gallai sefydliadau fod eisiau rhoi cyfeiriadau at ddogfennau mewn ffurf electronig, mae'n dderbyniol cyfeirio atynt yn y DH heb eu darparu mewn copi caled ar yr amod bod y tîm adolygu'n gallu cael gafael arnynt drwy'r we neu, er enghraifft, ar CD-ROM sy'n dod gyda'r fersiwn copi caled o'r DH. Bydd trafodaeth am ffyrdd eraill o gyflwyno'r DH a'i chyfeiriadau yn rhan o'r drafodaeth gychwynnol.

Cyflwyniad y myfyrwyr

54 Gwahoddir corff cynrychiolwyr y myfyrwyr i baratoi cyflwyniad i roi esboniad i'r tîm adolygu. Mae'r cyflwyniad yma'n gyfle i'r corff myfyrwyr roi safbwynt y myfyriwr i'r tîm adolygu o ran y ffordd y mae'r sefydliad yn rheoli ei ansawdd a'i safonau a sut mae myfyrwyr yn cymryd rhan yn y broses o reoli eu profiadau dysgu (Atodiad F).

55 Mae gan gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr yr opsiwn o gadarnhau cyflwyniad y sefydliad yn hytrach na pharatoi ei gyflwyniad ei hun. Mae ganddo hefyd yr opsiwn o ddarparu cyflwyniad cyfrinachol i'r tîm adolygu, ond mae ASA yn argymell yn gryf bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr a'r sefydliad yn cydweithredu wrth gynhyrchu eu cyflwyniad a'u DH ac yn rhannu'r dogfennau cyflawn cyn eu cyflwyno i ASA.

Paratoi ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol

56 Mae amlinelliad o broses yr Adolygiad Sefydliadol yn Atodiad A. Wrth baratoi ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol, bydd ASA yn darparu esboniad cychwynnol i'r sefydliad hyd at 12 mis o flaen llaw i ddisgrifio agweddau o'r broses ac i ateb unrhyw gwestiynau. Bydd y sesiwn esbonio wedi'i gynnal ddigonedd o amser cyn y cyfarfod cychwynnol er mwyn rhoi'r cyfle mwyaf i sefydliadau ystyried yr wybodaeth a'u rhoi mewn sefyllfa dda i drafod unrhyw broblemau posibl gyda'r CC pan fyddent yn cyfarfod yn ffurfiol am y tro cyntaf.

57 Y cam nesaf yw'r cyfarfod cychwynnol rhwng y sefydliad a CC ASA i drafod strwythur a chynnwys yr adolygiad cyfan. Bydd hyn wedi'i drefnu tua 24 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Yn y sefydliadau hynny sy'n cymryd rhan mewn adolygiad ar wahân neu hybrid o ddarpariaeth gydweithredol, bydd y cyfarfod cychwynnol yn digwydd 36 wythnos cyn yr ymweliad adolygu er mwyn cymryd i ystyriaeth y gofynion ychwanegol ar gyfer adolygiad o'r fath. Pwrpas y cyfarfod cychwynnol yw egluro cwmpas yr adolygiad; trafod y cydymweithio rhwng y sefydliad, ASA a'r tîm adolygu, gan gynnwys cyfrifoldebau perthnasol yr holl gyfranogwyr; sicrhau y bydd DH y sefydliad yn cyfateb yn dda â'r broses adolygu; pwysleisio y dylai tystiolaeth ddogfennol fod wedi'i seilio yn y lle cyntaf ar y defnydd sy'n cael ei ddefnyddio'n barod mewn rheoli ansawdd fewnol; trafod unrhyw faterion yn ymwneud â'r crynodeb sydd wedi'i baratoi gan Uned Gwybodaeth ASA o ddata Unistats y sefydliad; ac ystyried y sail ar gyfer dewis llwybrau adolygu. Rhwng y cyfarfod cychwynnol a chyflwyno DH y sefydliad, bydd ASA yn cynnig unrhyw gyngor ac arweiniad ag y gall ar y broses, ar gais y sefydliad.

58 Bydd y cyfarfod cychwynnol hefyd yn gyfle i gynnal trafodaeth ar wahân gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr am y cyflwyniad y gobeithir y byddent eisiau ei baratoi ar ran y corff myfyrwyr. Pwrpas y cyfarfod yma fydd egluro cwmpas a phwrpas y cyflwyniad ac archwilio unrhyw faterion perthnasol eraill. Bydd ASA yn cynnig unrhyw gyngor ac arweiniad ag y gall ar y broses, ar gais cynrychiolwyr y myfyrwyr.

59 Bydd gofyn i sefydliadau a chynrychiolwyr myfyrwyr gyflwyno eu cyflwyniadau heb fod yn hwyrach na 10 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Pan fydd ASA yn eu derbyn, bydd yn eu dosbarthu i'r tîm adolygu. Gydag adolygiad cydweithredol hybrid neu ar wahân, gofynnir i'r sefydliad a'r myfyrwyr gyflwyno eu cyflwyniadau 18 wythnos cyn yr ymweliad adolygu.

Yr ymweliad briffio

60 Bydd ymweliad tîm adolygu â sefydliad yn digwydd mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf ar gyfer yr ymweliad briffio, sy'n gyfle i'r tîm adolygu gael dealltwriaeth gadarn o'r sefydliad a'i agwedd tuag at reolaeth strategol ar ei safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth cyn yr ymweliad adolygu. Yn ystod yr ymweliad briffio, bydd y tîm adolygu'n archwilio ac yn sicrhau mwy o eglurhad am faterion a amlinellwyd gan y sefydliad a gan ei fyfyrwyr yn eu cyflwyniadau, a bydd yn ystyried rhywfaint o'r dystiolaeth a gynigir gan ddogfennau sydd wedi'u dyfynnu fel cyfeiriadau yn DH y sefydliad. Bydd yr ymweliad briffio hefyd yn cynnig cyfle i'r sefydliad a chynrychiolwyr y myfyrwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm am ddatblygiadau a newidiadau ers y cyflwynwyd y DH, ac i godi unrhyw faterion gyda'r tîm adolygu y byddent yn ei hystyried hi'n fuddiol i'r tîm eu harchwilio yn ystod yr ymweliad adolygu.

61 Bydd yr ymweliad briffio yma'n digwydd fel arfer pum neu chwe wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Bydd y tîm adolygu ar y safle am dri diwrnod i gyd, a bydd dau o'r diwrnodau yma'n cynnwys cyfarfodydd rhwng y tîm a chynrychiolwyr allweddol y sefydliad a'i fyfyrwyr. O'r cyfarfodydd yma ac o'i astudiaeth o'r dogfennau y mae'r sefydliad yn eu darparu iddo, bydd y tîm yn ystyried ei linellau ymholi manwl ar gyfer yr ymweliad adolygu, a bydd yn cynnig rhaglen ar gyfer yr ymweliad hwnnw. Bydd y

tîm adolygu'n gwneud y dewis terfynol o ran y llwybrau adolygu yn ystod yr ymweliad briffio, yn dilyn trafodaeth gyda chynrychiolwyr y sefydliad.

62 Fel arfer, bydd y ddogfennaeth sydd ar gael i'r tîm yn ystod yr ymweliad briffio wedi'i chyfyngu i'r defnydd eglurhaol sydd wedi'i enwi gan y sefydliad yn y mynegai i'w DH; gall sefydliadau ddewis a ydynt am ddarparu'r dogfennau yma i'r tîm ar ffurf electronig neu ar gopi caled, neu mewn cymysgedd o fformatau, yn dibynnu pa un sydd fwyaf cyfleus i'r sefydliad. Gallai'r adolygwyr hefyd ddweud pa ddogfennaeth eglurhaol yr hoffent i'r sefydliad ei darparu ar ddechrau'r ymweliad adolygu, neu weithiau, gyda dogfennau allweddol arbennig, cyn yr ymweliad adolygu. Bydd unrhyw gais am ddogfennaeth ychwanegol wedi'i gyfyngu i'r nifer sydd ei angen yn unig er mwyn hysbysu'r ymholiadau penodol y bydd y tîm yn ymdrin â nhw.

Yr ymweliad adolygu

63 Yr ymweliad adolygu yw'r cam nesaf ac mae hwn yn rhoi cyfle i'r tîm ddilyn mewn mwy o fanylder y llinellau ymholi a ganfuwyd yn yr ymweliad briffio; i ymestyn ei astudiaeth o ddogfennaeth y sefydliad sy'n ymwneud â rheoli ansawdd a safonau; i gyfarfod grwpiau penodol o staff a myfyrwyr; ac i archwilio'n gyffredinol yr hyn sydd dan ffocws yn yr adolygiad, sef yr hyn y cyfeirir ato ym mharagraff 12. Un nodwedd arbennig o'r ymweliad adolygu fydd archwiliad y tîm o'i lwybrau adolygu dethol. Mae'r ymweliad adolygu'n gyfle hefyd i'r sefydliad, ar ôl myfyrio ar sgyrsiau'r ymweliad briffio, gynnig unrhyw dystiolaeth neu eglurhad pellach i'r tîm y mae'n teimlo y gallai helpu'r tîm i ddeall ei agwedd tuag at reoli ansawdd a safonau.

64 Bydd y tîm adolygu'n sicrhau bod ei raglen ar gyfer yr ymweliad adolygu'n cynnwys cyfarfodydd gyda myfyrwyr fel ei fod yn gallu derbyn gwybodaeth yn bersonol am brofiad y myfyrwyr fel dysgwyr ac am eu hymwneud â dull y sefydliad o sicrhau a gwella ansawdd. Bydd y tîm yn chwilio am gyfleoedd i gyfarfod â chynrychiolwyr y myfyrwyr yn ystod yr ymweliad adolygu er mwyn trafod gyda nhw, yng nghyd-destun y sylwadau a fynegwyd mewn unrhyw gyflwyniad, yr wybodaeth y mae wedi bod yn ei chasglu yn ystod yr ymweliadau.

65 Fel arfer bydd yr ymweliad adolygu'n ymestyn dros bum niwrnod gwaith (Llun i Gwener), y bydd pedwar diwrnod ohonynt yn cynnwys cyfarfodydd rhwng y tîm adolygu a staff a myfyrwyr y sefydliad ac, os yw'n berthnasol, ei bartneriaid cydweithredol. Ar ddiwrnod olaf yr ymweliad adolygu, mae'r tîm adolygu'n ystyried ei ganfyddiadau er mwyn gwneud cytundebau a phenderfyniadau cychwynnol am:

- faint o hyder y gellir ei roi yng nghadernid safonau academaidd y dyfarniadau AU a wneir yn enw'r sefydliad, neu dan awdurdod dirprwyedig, a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth addysgol sy'n arwain at y dyfarniadau hynny
- y sylwadau y mae eisiau eu gwneud am agwedd y sefydliad tuag at wella ansawdd ei ddarpariaeth addysgol, am y trefniadau ar gyfer cynnal safonau academaidd priodol a gwella ansawdd rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, ac am gywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi am ansawdd ei ddarpariaeth addysgol a safonau ei ddyfarniadau

- nodweddion o arfer da y mae eisiau eu hamlygu fel rhai sy'n gwneud cyfraniad arbennig o bositif at ddull y sefydliad o reoli safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth
- argymhellion ar gyfer gweithredu gan y sefydliad, wedi'u categoreiddio yn nhermau pwysigrwydd a/neu frys.

66 Bydd y tîm adolygu'n ymarfer ei ganfyddiadau cychwynnol yn ystod ei gyfarfod preifat ar ddiwedd yr ymweliad adolygu, ond bydd yn parhau i wella'r canfyddiadau hynny drwy gyfathrebiadau mewnol dros y dyddiau nesaf, ar ôl cael cyfle pellach i fyfyrio ar yr holl wybodaeth y mae wedi'i chasglu. O ganlyniad, byddai'n rhy fuan i'r tîm adrodd i'r sefydliad ar ganfyddiadau'r adolygiad tra byddent ar y safle. Yn lle hynny, bydd llythyr 'canfyddiadau allweddol' wedi'i anfon at bennaeth y sefydliad o fewn pythefnos i ddiwedd yr ymweliad adolygu, yn amlinellu'r prif ganfyddiadau tebygol a'r argymhellion tebygol yn yr adroddiad drafft. Bydd y llythyr yma wedi'i ddarparu o ran cwrteisi i sefydliadau, i sicrhau rhywfaint o adborth yn agos at amser cyflawni'r ymweliad adolygu a bydd wedi'i ddarparu er gwybodaeth gychwynnol yn unig. Ni fydd yn rhan o'r adroddiad drafft, ac ni fydd yn gyfle i drafod cynnwys posibl yr adroddiad drafft.

67 Yn ystod diwrnod terfynol yr ymweliad adolygu, bydd CC ASA a rhai aelodau o'r tîm adolygu'n cynnig cyfarfod byr o ran cwrteisi i'r sefydliad i gofnodi cau ymweliad y tîm, gyda'r ddealltwriaeth na fydd y tîm yn y sefyllfa i roi adborth ar ganfyddiadau'r adolygiad ar y pryd.

Adolygiad Sefydliadol a'r ddarpariaeth iaith Gymraeg

68 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am Adolygiadau Sefydliadol yng Nghymru, mae ASA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. I gael rhagor o wybodaeth, gwelwch: Atodiad L a www.qaa.ac.uk/cymraeg/aboutus/policy/welshlanguage.

Adroddiadau

69 Bydd adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad a bydd mor gryno ag sy'n bosibl ac eto'n cynnwys digon o fanylion iddo wneud synnwyr i gynulleidfa sefydliadol.

70 Bydd fformat yr adroddiad yn dilyn templed sy'n alinio â'r strwythur sydd wedi'i argymell ar gyfer DH y sefydliad (gwelwch Atodiadau B a D). Y CC sy'n rheoli'r adolygiad a fydd yn cydlynu'r adroddiad. Bydd wedi'i baratoi a'i gyflwyno i'r sefydliad gynted ag sy'n bosib yn dilyn yr ymweliad adolygu, o fewn wyth wythnos fel arfer, gyda chais am gywiro ffeithiau anghywir. Anogir y sefydliad i rannu'r adroddiad drafft ac unrhyw gywiriadau a gynigir gyda chorff cynrychiolwyr y myfyrwyr.

71 Bydd yr adroddiad terfynol wedi'i baratoi ar gefndir ymateb y sefydliad. Bydd y sefydliadau wedi'u gwahodd i ddarparu datganiad byr (500 o eiriau) i'w atodi at yr adroddiad. Pwrpas y datganiad yma yw darparu cyfle i'r sefydliad adrodd, os yw'n dymuno gwneud hynny, ar ddatblygiadau a gafwyd yn y cyfnod ers yr ymweliad

adolygu, yn arbennig mewn perthynas â gweithgareddau a wnaeth neu sydd ar y gweill ar gyfer delio ag argymhellion yn yr adroddiad. Ni ddylid ei gymryd fel cyfle i herio beirniadaethau neu argymhellion yr adolygiad.

72 Y disgwyliad arferol yw bod yr adroddiad wedi'i gyhoeddi o fewn 22 wythnos i'r ymweliad adolygu.

Arwyddo'r adroddiad a'r gweithredu dilynol

73 Bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau pan fydd wedi'i 'arwyddo' yn ffurfiol. Pan fydd adroddiad yr adolygiad yn cynnig datganiadau o hyder positif ac nid oes unrhyw argymhellion yn cyfeirio at faterion pwysig sydd angen sylw brys, caiff yr adolygiad ei 'arwyddo' yn ffurfiol wrth ei gyhoeddi. Lle mae tîm adolygu'n rhoi barn o 'hyder cyfyngedig' neu 'ddim hyder' bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi a bydd rhaglen o weithredu dilynol (Atodiad E).

Beirniadaeth am hyder

74 Dair blynedd ar ôl yr adolygiad, mae gofyn i'r sefydliad gyflwyno adroddiad i ASA sy'n rhoi sylwadau ar ei ddatblygiad ers yr adolygiad ac sy'n amlinellu ei fwriadau mewn perthynas â rheoli ansawdd a safonau dros y tair blynedd ddilynol hyd yr adolygiad nesaf. Mae ASA yn mynd i'r sefydliad ar ymweliad byr i drafod yr adroddiad ac yn rhoi adborth i'r sefydliad ynghylch ei argraffiadau am y cynnydd a wnaed ac am unrhyw gryfderau a gwendidau yng nghynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol y sefydliad (Atodiad K).

Beirniadaeth o hyder cyfyngedig

75 Gyda datganiad o 'hyder cyfyngedig', bydd ASA eisiau cynllun gweithredu gan y sefydliad o fewn tri mis i gyhoeddiad yr adroddiad canlyniadau a gallai ofyn am adroddiadau cynnydd ar gyfnodau rheolaidd. Ni fydd yr adolygiad wedi'i 'arwyddo' yn derfynol gan y Bwrdd ASA nes bydd y sefydliad yn dangos bod y cynllun gweithredu wedi'i gwblhau a'i weithredu'n llwyddiannus, ac mae'n rhaid gwneud hynny o fewn 18 mis. Os na fydd digon o gynnydd wedi'i wneud, bydd ASA yn trafod gyda CCAUC pa weithredu ychwanegol allai fod yn ofynnol.

76 Pan ystyrir bod gweithredu'r sefydliad yn anfoddhaol yn dilyn beirniadaeth o hyder cyfyngedig, bydd ASA fel arfer yn gwneud Adolygiad Sefydliadol o fewn pedair blynedd i gyhoeddi adroddiad yr adolygiad.

Beirniadaeth o ddim hyder

77 Gyda beirniadaeth o ddim hyder gofynnir i'r sefydliad gyflwyno cynllun gweithredu manwl o fewn tri mis i ASA, wedi'i ddilyn gan adroddiadau cynnydd rheolaidd ac ymweliad dilynol byr â'r sefydliad i wirio y bydd cynnydd wedi digwydd o fewn 12 mis. Nid yw'r adolygiad wedi'i arwyddo'n ffurfiol nes bydd ASA yn fodlon bod y cynllun

gweithredu wedi'i weithredu'n llwyddiannus, o fewn 12 mis fan bellaf. Os na fydd digon o gynnydd wedi digwydd, bydd ASA yn trafod gyda CCAUC pa weithredu ychwanegol allai fod yn ofynnol.

78 Lle teimlir bod yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i wneud yn foddhaol yn dilyn beirniadaeth o ddim hyder, bydd ASA fel arfer yn gwneud Adolygiad Sefydliadol o fewn dwy flynedd i gyhoeddi adroddiad yr adolygiad.

Crynodeb o weithredoedd yn dilyn beirniadaeth

Beirniadaeth	Gweithredu
Hyder	Mae angen adolygiad dilynol canol-rhaglen ar ôl tair blynedd wedi'i ddilyn gan Adolygiad Sefydliadol ar ôl chwe blynedd
Hyder cyfyngedig	Cynllun gweithredu, wedi'i weithredu o fewn 18 mis, a'i ddilyn gan Adolygiad Sefydliadol o fewn pedair blynedd
Dim hyder	Cynllun gweithredu, adroddiadau rheolaidd ac ymweliad gan ASA wedi'u gweithredu o fewn 12 mis, ac yn dilyn hynny Adolygiad Sefydliadol o fewn dwy flynedd

79 Mewn achosion o feirniadaethau o naill ai ddim hyder neu hyder cyfyngedig, os bydd pryderon yn parhau am effeithiolrwydd y gweithredu cywiro, bydd ASA yn gwneud ymweliad pellach; ac os nad oes cynnydd boddhaol wedi digwydd o hyd, gyda sefydliadau sy'n derbyn cyllido CCAUC, mae CCAUC yn cadw'r hawl i dynnu rhywfaint neu'r cwbl o'r arian hwnnw yn ôl. Gallwch weld manylion trefnau CCAUC mewn achosion o ansawdd anfoddhaol ar: www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/W09%2025HE%20Policy%20for%20addressing%20unsatisfactory%20quality%20in%20institutions%20in%20Wales.pdf

80 Mae crynodeb o'r berthynas rhwng beirniadaeth ac argymhellion y tîm adolygu, a'r gweithredu dilynol sy'n ofynnol, yn Atodiad E.

Achosion i bryderu sydd wedi'u canfod y tu allan i'r broses Adolygiad Sefydliadol

81 Mae ASA wedi cyflwyno trefnau ar gyfer mynd i'r afael ag achosion i bryderu mewn sefydliadau AU a sefydliadau addysg bellach a ariennir yn uniongyrchol sy'n darparu addysg uwch. I'r pwrpas yma, mae Achos i Bryderu wedi'i ddiffinio'n gaeth fel 'unrhyw bolisi, trefn neu weithred y mae sefydliad wedi'i wneud neu heb ei wneud sy'n ymddangos yn debygol o beryglu safonau academaidd ac ansawdd ei ddyfarniadau a/neu ei raglenni addysg uwch'. I gael rhagor o wybodaeth gwelwch: www.qaa.ac.uk/cymraeg/causesforconcern/WalesconcernW.asp

Cwynion a chyflwyno achosion

82 Mae ASA yn ystyried cwynion am weithrediad yr adolygiad ac achosion yn erbyn y feirniadaeth o 'ddim hyder' a wneir gan y tîm adolygu yn unol â'r trefnau ffurfiol sydd wedi eu cyhoeddi ar ei gwefan www.qaa.ac.uk/aboutus/policy/intro.asp

Atodiad A: Amlinelliad o'r broses Adolygiad Sefydliadol

Crynodeb paratoadol, blwyddyn o flaen llaw fel arfer	Mae ASA yn rhoi crynodeb o'r broses Adolygiad Sefydliadol i sefydliadau
O leiaf 24 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = y cyfarfod cychwynnol	Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) yn ymweld â'r sefydliad i gyfarfod cynrychiolwyr y sefydliad a'r myfyrwyr Y CC yn darparu gwybodaeth am y broses adolygu ac yn rhoi arweiniad ar ddogfen hunanwerthusiad (DH) y sefydliad a chyflwyniad y myfyrwyr
10 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn y DH sefydliadol ASA yn derbyn cyflwyniad y myfyrwyr (lle mae ar gael)
5 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = yr ymweliad briffio	Y tîm adolygu a'r CC yn gwneud ymweliad briffio â'r sefydliad Y tîm adolygu'n cynnal cyfarfod gyda phennaeth y sefydliad, staff uwch priodol a chynrychiolwyr y myfyrwyr Y tîm adolygu'n dewis llinellau ymholiad eang ar gyfer yr ymweliad adolygu Y tîm adolygu'n cyfarfod gyda chynrychiolwyr sefydliadol i gytuno ar raglen ar gyfer yr ymweliad adolygu a llwybrau adolygu Penderfynir ar unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol cyn neu yn ystod yr ymweliad adolygu
Yr ymweliad adolygu	Y tîm adolygu'n ymweld â'r sefydliad am hyd at bum niwrnod gwaith; y CC yn ymuno â'r tîm ar ddiwrnod olaf yr ymweliad adolygu Y tîm adolygu'n cyfarfod staff a myfyrwyr ar gyfer trafodaethau am y llinellau ymholiad, yn cynnwys y llwybrau adolygu
2 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Y tîm adolygu'n cytuno ar lythyr sy'n amlinellu canfyddiadau'r adolygiad a anfonir at bennaeth y sefydliad gan y CC
8 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn anfon adroddiad drafft i'r sefydliad
12 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Y sefydliad yn ymateb i'r adroddiad drafft
22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Cyhoeddi'r adroddiad ar y We

Atodiad B: Canllawiau ar gyfer cynhyrchu'r ddogfen hunanwerthusiad

1 Mae Adolygiad Sefydliadol, fel y prosesau o'i flaen, wedi'i seilio ar y disgwyliad y bydd sefydliad myfyriol yn gwerthuso pa mor effeithiol mae'n rheoli safonau ac ansawdd gan ddefnyddio cwestiynau tebyg i'r rhain:

- Beth ydyn ni'n ceisio ei wneud?
- Pam ydyn ni'n gwneud hyn?
- Sut ydyn ni'n ei wneud?
- Pam mai dyma'r ffordd orau o'i wneud?
- Sut ydyn ni'n gwybod ei fod yn gweithio?
- Sut allwn ni ei wella?

2 Mae DH yn gyfle i sefydliad amlinellu'r ffordd y mae'n mynd ati i ateb y chwe chwestiwn yma, gyda'r tri chwestiwn cyntaf yn canolbwyntio fwy ar ddisgrifio'i ddulliau a'r tri chwestiwn diweddarach yn gwneud mwy o fyfyrio.

3 Dylai'r DH y gofynnwyd amdano ar gyfer y broses Adolygiad Sefydliadol ddiwygiedig amlinellu agwedd y sefydliad tuag at reoli diogelwch safonau academaidd ei ddyfarniadau ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Dylai hysbysu'r tîm adolygu am y ffordd y mae'r sefydliad wedi myfyrio ar effeithiolrwydd ei brosesau rheoli ac wedi mynd ati i'w gwella.

4 O safbwynt tîm adolygu, mae'n bwysicach cael dogfen sy'n rhoi darlun clir o agwedd y sefydliad tuag at reoli safonau ac ansawdd academaidd, a'r mesurau y mae'n eu cymryd i fyfyrio'n adeiladol ar y dull hwnnw, na chael dogfen sydd ond yn ei gwerthuso ei hun o safbwynt canfod cryfderau a gwendidau.

5 Mae'r DH yn gyfle i sefydliad gynnig darlun o effeithiolrwydd ei agwedd a darparu cyfeiriadau at dystiolaeth sy'n cefnogi'r farn honno. Mae'n bwysig bod modd adnabod pob adran o'r DH yn glir a bod ganddo fynegai cynhwysfawr yn rhoi cyfeiriadau at y dystiolaeth y mae'r sefydliad eisiau ei dyfynnu.

6 Dylai'r DH ddarparu:

a cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys cenhadaeth y sefydliad gydag amlinelliad o'r datblygiadau ers yr adolygiad diwethaf (a gwaith dilyniant ar canol-rhaglen) a'r gweithredu a ddigwyddodd ar ganlyniadau'r adolygiad diwethaf (a'r gwaith dilyniant ar ganol y rhaglen) a throsolwg o'r fframwaith rheoli academaidd

b myfyrio ar ddull y sefydliad yn awr ac yn y dyfodol o:

- sicrhau bod ei safonau academaidd yn ddiogel, a sut y caiff y dull yma ei werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas
- sicrhau bod y cyfleoedd dysgu ar gyfer y myfyrwyr yn addas a bod y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu helpu i wneud defnydd da o'r cyfleoedd hynny, a sut y caiff yr agwedd yma ei werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas

- yr agwedd gyffredinol a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli gwella ansawdd, sut mae'n datblygu ethos sy'n disgwyl ac yn annog gwella cyfleoedd dysgu, yn annog, yn cefnogi ac yn lledaenu arferion da ac yn canfod cyfleoedd i wella, a myfyrio ar effeithiolrwydd ei agwedd:

c (lle mae wedi'i gytuno y bydd trefniadau cydweithredol y sefydliad wedi'u cynnwys yn yr Adolygiad Sefydliadol), amlinelliad o ddull y sefydliad o reoli ei ddarpariaeth gydweithredol a myfyrio ar ba mor effeithiol ydyw, gan ganfod unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y ffordd y mae'n ymdrin â rheoli ei drefniadau cydweithredol ac yn rheoli ei ddarpariaeth eu hun

d amlinelliad o ddull y sefydliad o gynnal safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth rhaglenni ymchwil ôl-raddedig ac adlewyrchiad ar ba mor effeithiol ydyw

e amlinelliad o drefniadau'r sefydliad i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi am ei ddarpariaeth addysgol a'r safonau academaidd y mae'n eu cefnogi'n gywir ac yn gyflawn.

Strwythur a awgrymir ar gyfer y DH

7 Efallai y byddai o gymorth i'r sefydliad ddefnyddio'r penawdau dilynol, gan gysylltu'r rhain fel y bo'n briodol ag (a) ac (e) uchod:

- Sefydliad a chenhadaeth (A)
- Datblygiadau ers yr adolygiad diwethaf (B)
- Fframwaith rheolaeth academaidd (C)
- Cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni (D)
- Cyfranogaeth allanol mewn achrediad ac adolygiad mewnol (E)
- Adolygiad ar lefel y rhaglen ac achrediad gan gyrff allanol (F)
- Arholi allanol (G)
- Rheoliadau a pholisïau asesu (H)
- Gwybodaeth rheoli (I)
- Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio allanol eraill (J)
- Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr (K)
- Cynrychiolaeth y myfyrwyr a rôl y myfyrwyr mewn sicrhau ansawdd (L)
- Cysylltiadau rhwng gwaith ymchwil neu weithredu ysgolheigaidd a chyfleoedd dysgu (M)
- Dulliau eraill o astudio, gan gynnwys dulliau o bell a dulliau dosranedig (N)
- Adnoddau ar gyfer dysgu (O)
- Polisi mynediad (P)
- Arweiniad, cefnogaeth ac arolygiad academaidd (Q)

- Cefnogaeth ac arweiniad personol (R)
- Polisi cwynion ac apeliadau (S)
- Penodi, gwerthuso a chosbi staff (T)
- Cefnogaeth i staff (gan gynnwys datblygiad staff) (U)
- Trefniadau cydweithredol (V)
- Dull y sefydliad o wella ansawdd a safonau (W)
- Trefniadau'r sefydliad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig (X)
- Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi (Y).

Atodiad C: Gwybodaeth

Mae'r broses Adolygiad Sefydliadol yn dibynnu i raddau mawr ar argaeledd yr wybodaeth i'r tîm adolygu ei hystyried.

Mae'n cynnwys dau fath o wybodaeth, y cyntaf (Adran A) yw'r wybodaeth ddylai fod ar gael ymhob sefydliad i bwrpasau mewnol, a'r ail (Adran B) yw'r wybodaeth a gyhoeddir yn arferol gan y sefydliad. Fel arfer, bydd y tîm adolygu'n defnyddio gwybodaeth Adran A ac Adran B sy'n berthnasol i'r flwyddyn academaidd y mae'r adolygiad yn digwydd ynddi ac i'r flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r ddau fath yma o wybodaeth wedi eu disgrifio yma.

Adran A: Gwybodaeth ddylai fod ar gael ymhob sefydliadau AU i bwrpasau mewnol, ac yn hygyrch gan y tîm adolygu

1 Cyd-destun sefydliadol

- datganiad o genhadaeth
- adrannau o gynllun corfforaethol y sefydliadau AU sy'n gysylltiedig â'r Adolygiad Sefydliadol a'r prosesau a threfnau ansawdd sydd ar waith yn y sefydliad
- prosesau a pholisïau'r datganiad sicrhau ansawdd
- strategaeth dysgu ac addysgu ac adolygiadau datblygiad cyfnodol y strategaeth honno ers yr Adolygiad Sefydliadol blaenorol.

2 Mynediad, datblygiad a chwblhad y myfyrwyr

- cymwysterau'r myfyrwyr wrth iddynt gychwyn yn y coleg
- amrediad y myfyrwyr newydd wedi eu categoreiddio yn ôl eu hoedran, rhyw, ethnigrwydd, cefndir cymdeithasol-economaidd, anabledd a gwreiddiau daearyddol fel y maent wedi eu dychwelyd i'r HESA
- data am gadwraeth a dilyniant ar gyfer bob blwyddyn o bob cwrs/rhaglen, sy'n gwahaniaethu rhwng methiant ac ymadawiad
- data am y myfyrwyr yn cwblhau
- data am y cymwysterau a ddyfarnwyd
- data o'r Arolwg Arhydol Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) am y myfyrwyr aeth ymlaen i swyddi/hyfforddi.

3 Trefnau mewnol ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd academaidd

- cymeradwyo, adolygu a monitro rhaglenni
- manylebion rhaglen
- datganiad am swyddogaethau, cyfrifoldebau ac awdurdod perthnasol gwahanol gyrff o fewn y SAU sy'n ymwneud ag adolygu a chymeradwyo rhaglenni
- canlyniadau allweddol y broses o gymeradwyo rhaglenni, a phrosesau adolygu a monitro blynyddol

- adroddiadau mewnol cyfnodol o'r prif adolygiadau rhaglenni ers yr Adolygiad Sefydliadol blaenorol
- adroddiadau adolygiadau mewnol cyfnodol gan adrannau neu gyfadrannau ers yr Adolygiad Sefydliadol blaenorol
- adroddiadau monitro neu achrediad gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol.

4 Trefnau a chanlyniadau asesu

- trefnau, prosesau a strategaethau asesu
- ystod a natur gwaith y myfyrwyr
- adroddiadau arholwyr allanol, dadansoddiad o'u canfyddiadau, a'r hyn a wneir mewn ymateb
- adroddiadau adolygiadau cyfnodol o briodoldeb y dulliau asesu a ddefnyddir.

5 Boddhad y myfyrwyr, yn delio â barn y myfyrwyr am

- drefniadau ar gyfer arweiniad, cefnogaeth ac arolygiad tiwtorial ac academaidd
- gefnogaeth technoleg gwybodaeth a gwasanaethau llyfrgell
- ba mor addas yw'r adeiladau, offer a chyfleusterau ar gyfer dysgu ac addysgu
- farn pobl am ansawdd yr addysgu a'r amrediad o ddulliau dysgu ac addysgu
- drefniadau asesu
- ansawdd y gefnogaeth fugeiliol.

6 Y dystiolaeth sydd ar gael i dimau sy'n gwneud adolygiadau mewnol y SAU eu hunain o ansawdd a safonau

- effeithiolrwydd y dysgu a'r addysgu, mewn perthynas ag amcanion y rhaglen a chynnwys y cwricwlwm wrth iddynt ddatblygu dros amser
- yr amrediad o ddulliau dysgu a ddefnyddir
- pa offer arbenigol ac adnoddau a defnyddiau eraill sydd ar gael a sut y maent wedi eu defnyddio i gefnogi dysgu ac addysgu
- faint o gyfle sydd i staff gael datblygiad proffesiynol er mwyn gwella eu perfformiad addysgu, yn cynnwys rhaglenni mentora ac arsylliad cymheiriaid
- defnyddio meincnodau allanol a dulliau cymharu eraill gartref a thramor, ar gyfer meysydd academaidd ac anacademaidd fel ei gilydd
- cyfranogaeth gan gymheiriaid allanol yn y dull adolygu, eu sylwadau, a'r hyn a wnaeth y sefydliad mewn ymateb.

Adran B: Gwybodaeth i'w chyhoeddi

7 Data meintiol (y mae rhywfaint ohono wedi'i gyhoeddi ar wefan Unistats (www.unistats.com))

- data'r HESA ar gymwysterau mynediad myfyrwyr
- dangosyddion perfformiad a meincnodau a gyhoeddwyd gan y cyrff cyllido AU ar gynnydd a chwblhau'n llwyddiannus i fyfyrwyr gradd gyntaf llawn amser (ar wahân ar gyfer cynnydd yn dilyn y flwyddyn gyntaf, ac ar gyfer pob un o flynyddoedd y rhaglen)
- data HESA ar ddosbarth y radd gyntaf, yn ôl maes y pwnc
- dangosyddion perfformiad a meincnodau a gyhoeddwyd gan y cyrff cyllido AU ar ddeilliannau cyflogaeth/DLHE ar gyfer myfyrwyr gradd gyntaf llawn amser.

8 Data ansoddol

- canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol
- adborth gan fyfyrwyr cyfredol, a gasglwyd drwy arolwg y sefydliadau AU eu hunain
- crynodeb o'r strategaeth dysgu ac addysgu
- crynodeb o gysylltiadau gyda chyflogwyr (er enghraifft, sut mae'r sefydliad yn canfod beth yw anghenion a barn cyflogwyr, a sut y defnyddir y rhain i ddatblygu perthnasedd a chyfoeth y rhaglenni dysgu).

Atodiad D: Strwythur yr adroddiad Adolygiad Sefydliadol

Yr adroddiad

Cyflwyniad

Beirniadaethau

Nodweddion yr arferion da

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Canfyddiadau

- Fframwaith rheolaeth academaidd
- Rheolaeth sefydliadau ar safonau academaidd
- Rheolaeth sefydliadau ar gyfleoedd dysgu
- Trefniadau cydweithredol
- Agwedd y sefydliad tuag at reoli gwella ansawdd
- Trefniadau'r sefydliad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig
- Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi

Atodiad E: Y meini prawf ar gyfer beirniadaethau am hyder, a'r berthynas rhwng beirniadaethau am hyder, argymhellion a gweithredu dilynol

1 Wedi eu disgrifio isod mae'r meini prawf sydd i gael eu defnyddio gan y tîm adolygu wrth iddynt farnu faint o hyder y gallant ei roi yn rhesymol yng nghadernid rheolaeth bresennol y sefydliad a'i reolaeth debygol yn y dyfodol ar safonau academaidd ei ddyfarniadau, a'r hyder y gallant ei roi yn rhesymol yng nghadernid y rheolaeth bresennol a'r rheolaeth debygol yn y dyfodol ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr. Mae'r berthynas rhwng y farn am hyder, y mathau o argymhellion a geir gan y tîm adolygu, a'r gweithredu dilynol a geir ar ôl yr adolygiad, wedi eu crynhoi hefyd.

Hyder

2 Trwy roi beirniadaeth o hyder, mae ASA yn dangos ei fod yn barnu bod y sefydliad yn meddu ar fecanweithiau trwyadl i reoli diogelwch safonau academaidd ei ddyfarniadau, ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ac yn gyson, a/neu ei fod yn barnu bod gan y sefydliad fecanweithiau trwyadl ar gyfer rheoli ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol ac yn gyson. Bydd y mecanweithiau yma'n cynnwys defnydd cryf a thrwyadl o arholwyr allanol annibynnol a'r defnydd o gyfranogwyr allanol annibynnol mewn trefnau rheoli ansawdd mewnol, gyda chyfeiriad arbennig at yr arweiniad a ddarperir gan y *Cod Ymarfer, Adran 7: Cynllunio, cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglen*, a gyhoeddwyd gan ASA. Bydd y sefydliad hefyd wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod ganddo'r gallu i, a'i fod yn debygol o barhau i, sicrhau a chynnal ansawdd a safonau yn y dyfodol.

3 **Tystiolaeth:** Bydd yn gwneud y beirniadaethau drwy edrych ar dystiolaeth sy'n dangos bod gan y sefydliad strwythurau a threfnau cryf i sicrhau diogelwch y safonau academaidd a/neu ansawdd ei ddarpariaeth; ei fod yn llwyddiannus o ran rheoli'r strwythurau a'r trefnau hynny ar lefel sefydliadol; a bod y trefnau wedi eu gweithredu'n effeithiol yn ymarferol er budd y myfyrwyr. Mae beirniadaeth o hyder yn awgrymu bod gan y sefydliad y gallu a'r ymrwymiad i adnabod a delio ag unrhyw sefyllfa allai fygwth ansawdd rhaglenni a/neu safonau dyfarniadau.

4 **Argymhellion**: Ochr yn ochr â beirniadaeth o hyder gellir cyflwyno nifer fechan o argymhellion a ystyrir yn fuddiol. Nid yw'n beth anarferol i gael nifer o argymhellion a ystyrir yn fanteisiol hefyd, ond ni fydd unrhyw argymhellion a ystyrir yn hanfodol. Mae'r feirniadaeth yn dangos bod yr argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn debygol, ym marn ASA, o gael eu hystyried yn gywir a'u trin drwy strwythurau rheoli ansawdd arferol y sefydliad.

5 **Gweithredu dilynol**: Bydd gweithredu dilynol yn digwydd fel arfer oddeutu tair blynedd ar ôl Adolygiad Sefydliadol; bydd yr amseriad wedi'i gytuno gyda phob sefydliad yn rhan o amserlen yr Adolygiad Sefydliadol. Bydd y gweithredu dilynol yn digwydd ar ffurf adroddiad dilynol byr gan y sefydliad canol-rhaglen gan ddefnyddio'r dogfennau sydd ganddynt yn barod lle bo'n bosibl ac ymweliad gan ddau swyddog ASA. Fel arfer, bydd y sefydliad yn cael adolygiad pellach ar ôl cyfnod o chwe blynedd fan bellaf.

Hyder cyfyngedig

6 Mae beirniadaeth o hyder cyfyngedig yn dangos bod yna dystiolaeth i ddangos bod gallu'r sefydliad i reoli ansawdd ei gyfleoedd dysgu a/neu ddiogelwch safonau ei ddyfarniadau yn gadarn ac yn effeithiol wedi ei gyfyngu mewn rhyw ffordd neu'n debygol o fynd yn gyfyngedig yn y dyfodol. Efallai mai'r rheswm am y feirniadaeth yma yw bod yna wendidau sylweddol naill ai yn y ffordd mae'r sefydliad yn rheoli ei strwythurau a'i drefnau neu yn eu gweithredu. Efallai bod yr hyder wedi'i gyfyngu naill ai oherwydd maint neu gyfradd y gwendidau a ganfuwyd. Nid dim ond tystiolaeth o broblemau mewn rhai rhaglenni yw'r ffactor sy'n peri i dîm basio barn o hyder cyfyngedig mewn rhai rhaglenni - ni ellir disgwyl i unrhyw sefydliad osgoi'r rhain yn gyfan gwbl. Yn hytrach, un rheswm posib fyddai'r ffaith nad yw sefydliad yn gwbl ymwybodol o'r problemau a/neu ei bod wedi methu â gweithredu'n brydlon ac yn briodol i'w cywiro nhw. Gallai'r tîm adolygu hefyd fynegi hyder cyfyngedig os nad yw'r sefydliad yn gwneud defnydd llawn o arholwyr allanol annibynnol a/neu bobl allanol annibynnol mewn trefnau rheoli ansawdd mewnol. Nid yw barn o hyder cyfyngedig yn feirniadaeth o fethiant. Yn hytrach mae'n dangos bod angen gwneud gwelliannau.

7 **Tystiolaeth**: Pan fo tystiolaeth yn bodoli sy'n taflu amheuon ar effeithiolrwydd y dulliau cyfredol o sicrhau ansawdd a/neu ddiogelwch safonau, neu allu ac ymrwymiad y sefydliad i gynnal y rhain yn y dyfodol, bydd y farn yn nodi a yw'r pryderon wedi eu cyfyngu i nifer fechan o faterion neu'n fwy eang na hynny, ac a yw'r materion yma'n rhoi ansawdd a/neu safonau mewn perygl ai peidio.

8 **Argymhellion**: Ochr yn ochr â beirniadaeth o hyder cyfyngedig bydd argymhellion a ystyrir yn hanfodol, neu nifer o argymhellion a fyddai'n fanteisiol, yn ogystal â nifer o argymhellion a ystyrir yn fanteisiol ac yn fuddiol.

9 **Gweithredu dilynol**: O fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad gofynnir i'r sefydliad gyflwyno cynllun gweithredu i ASA sy'n dangos sut mae'n bwriadu delio gyda'r argymhellion yn yr adroddiad, a darparu, yn dilyn hynny, adroddiad datblygiad i ddisgrifio sut mae'r cynllun gweithredu wedi'i weithredu. Nid yw'r adolygiad wedi ei arwyddo'n ffurfiol nes bo ASA yn fodlon bod y cynllun gweithredu wedi ei weithredu'n llwyddiannus, a rhaid gwneud hynny o fewn 18 mis ar y mwyaf. Bryd hynny, os bydd pryderon yn parhau am effeithiolrwydd y gweithredu adferol, bydd ASA yn ymweld unwaith eto. Lle ystyrir bod gweithredu'r sefydliad yn foddhaol yn dilyn barn o hyder cyfyngedig bydd ASA yn gwneud adolygiad o fewn pedair blynedd i ddyddiad yr adolygiad gwreiddiol. Os na fydd cynnydd digonol wedi'i wneud bydd ASA yn trafod gyda CCAUC pa weithredu ychwanegol allai fod yn ofynnol.

Dim hyder

10 Mae beirniadaeth o ddim hyder yn dangos bod yna dystiolaeth sylweddol o wendidau difrifol a sylfaenol yng ngallu'r sefydliad i sicrhau safonau academaidd ei ddyfarniadau a/neu gynnal ansawdd ei ddarpariaeth addysgol.

11 **Tystiolaeth**: Bydd ASA yn pasio'r farn dim hyder naill ai oherwydd absenoldebau neu gamgymeriadau difrifol yn nhrefnau'r sefydliad ei hun neu oherwydd bod elfennau o'i rheolaeth yn aneffeithiol, a lle mae modd gweld naill ai bod ansawdd a/neu safonau mewn perygl uniongyrchol, neu y mae amheuaeth ddifrifol am allu'r sefydliad i'w sicrhau a'u cynnal nhw yn y dyfodol.

12 **Argymhellion**: Ochr yn ochr â barn o ddim hyder bydd nifer o argymhellion a ystyrir yn hanfodol, yn ogystal â nifer a ystyrir yn fuddiol a manteisiol.

13 **Gweithredu dilynol**: O fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad, gofynnir i'r sefydliad gyflwyno cynllun gweithredu i ASA, gyda'r amseroedd gweithredu o fewn 12 mis, yn dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion yn yr adroddiad. Wedi hynny, gofynnir iddo ddarparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar y ffordd y mae'r gwendidau a nodwyd yn derbyn sylw. Ar ddiwedd 12 mis, mae ASA yn gwneud ymweliad dilynol byr â'r sefydliad i wirio cynnydd. Ni chaiff yr adolygiad ei arwyddo'n ffurfiol nes bydd ASA yn fodlon bod y cynllun gweithredu wedi'i weithredu'n llwyddiannus. Bydd ASA yn gwneud adolygiad o fewn dwy flynedd i ddyddiad yr adolygiad gwreiddiol. Os na wneir cynnydd digonol, bydd ASA yn trafod gyda CCAUC pa weithredu ychwanegol allai fod yn ofynnol.

Atodiad F: Ymgysylltiad y myfyriwr â'r Adolygiad Sefydliadol

Cyflwyniad

1 Mae myfyrwyr yn ganolog i bwrpas yr Adolygiad Sefydliadol ac i'r broses adolygu. Bydd pob adolygiad yn cyflwyno cyfleoedd i fyfyrwyr hysbysu a chyfrannu at weithgareddau'r tîm adolygu.

2 Bydd gwahoddiad i swyddogion a staff o gorff cynrychiolwyr y myfyrwyr yn y sefydliad gymryd rhan yn y cyfarfod cychwynnol rhwng ASA a'r sefydliad. Yr hyn fydd yn digwydd yn aml iawn yw bod swyddogion myfyrwyr yn newid yn ystod cyfnod yr adolygiad. Pan fydd hyn yn digwydd, mae ASA yn gofyn bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n briodol a bod yr hyrwyddwr sefydliadol yn cadw cysylltiad gyda'r cynrychiolwyr ac yn sicrhau bod cynrychiolwyr y corff myfyrwyr yn ymwybodol o enw a manylion cysylltu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr adolygiad.

3 Bydd gwahoddiad i swyddogion a staff y corff cynrychiolwyr a myfyrwyr eraill gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn ystod ymweliadau adolygu a briffio'r tîm adolygu â'r sefydliad. Mae'r cyfarfodydd yma'n ffordd i'r myfyrwyr sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o faterion sydd o'r diddordeb neu'r pwys mwyaf iddynt.

Cyflwyniad y myfyriwr

4 Mae'r cyflwyniad yn ffordd y gall y myfyrwyr, drwy eu corff cynrychiolwyr, roi gwybod i'r tîm adolygu cyn yr ymweliad briffio am faterion a ystyriant yn berthnasol o gofio pwrpas yr Adolygiad Sefydliadol. Mae ASA yn annog cyrff cynrychiolwyr y myfyrwyr i ddefnyddio'r cyfle hwn i hysbysu timau adolygu am eu barn a'u tystiolaeth ac i weithio'n agos â'r sefydliad.

5 Mae'r cyflwyniad yn gyfle i'r corff cynrychiolwyr roi argraff i'r tîm adolygu o'r profiad o fod yn fyfyriwr yn y sefydliad hwnnw a sut y caiff eu sylwadau eu cynnwys ym mhrosesau sicrhau ansawdd a gwneud penderfyniadau'r sefydliad.

Ffurf, hyd a chynnwys

6 Ni ddylai'r cyflwyniad fod yn rhy hir (dim hirach na 6,000 o eiriau) a dylent ddarparu esboniad o'r ffynonellau tystiolaeth a hysbysodd ei sylwadau a'i gasgliadau.

7 Mae'n rhaid i'r cyflwyniad gynnwys datganiad i esbonio sut y cafodd ei gasglu, pwy yw ei awdur, ac i ba raddau y mae ei gynnwys wedi ei rannu gyda, a'i ardystio gan y corff myfyrwyr cyfan. Er enghraifft, os bydd y cyflwyniad wedi ei baratoi'n gyfan gwbl o safbwynt myfyrwyr israddedig neu fyfyrwyr llawn amser, dylid esbonio hynny'n glir.

8 Bydd y tîm adolygu'n croesawu cyflwyniad sy'n ceisio cynrychioli safbwyntiau cyfran mor eang ag sy'n bosib o'r myfyrwyr.

9 Wrth lunio'r cyflwyniad hwn a chasglu tystiolaeth ar ei gyfer, efallai y bydd myfyrwyr eisiau ystyried y penawdau eang a ddefnyddir gan y sefydliad wrth lunio ei DH (gwelwch Atodiad B), efallai y bydd myfyrwyr eisiau canolbwyntio'n arbennig ar y canlynol:

- sut mae'r sefydliad yn rheoli safonau academaidd a phrofiad dysgu'r myfyriwr, gan gynnwys:
  - cyfranogaeth myfyrwyr mewn gweithgareddau adolygu mewnol ac allanol
  - myfyrwyr fel partneriaid mewn rheoli ansawdd
  - cefnogaeth i ystod o ddulliau astudio (megis dysgu hyblyg, mentora cymheiriaid)
  - a oes adnoddau dysgu addas a digonol
  - ymdrin â chwynion myfyrwyr ac apeliadau academaidd
  - darparu gwasanaethau cefnogi digonol a chael strwythurau yn eu lle (er enghraifft, cefnogaeth i'r anabl, tiwtora personol)
  - adborth am asesiad
- sut mae'r sefydliad yn rheoli ei drefniadau cydweithredol a sut mae profiad dysgu'r myfyriwr o'r rhaglenni hynny a ddarperir gan bartneriaid cydweithredol wedi'i sicrhau
- cywirdeb, cyflawnder a dibynadwyaeth yr wybodaeth a gyhoeddir gan y sefydliad am ansawdd ei raglenni a safonau ei ddyfarniadau, gan gynnwys:
  - gwybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr (er enghraifft, honno a ddarperir ar wefannau neu mewn prosbectysau)
  - arweiniad ar ddulliau dysgu, addysgu ac asesu
  - meini prawf asesu
  - trefnau cwyno ac apelio
- y cyfle i fyfyrwyr gymryd rhan yn y strwythurau gwneud penderfyniadau a sicrhau ansawdd o fewn y sefydliad. Gallai hyn gynnwys:
  - strwythurau cynrychioli ffurfiol, megis aelodaeth o weithgorau a phwyllgorau a sut mae'r myfyrwyr wedi'u cefnogi i gymryd rhan yn y rheiny
  - cyfranogaeth myfyrwyr mewn adolygiad mewnol a gweithgareddau cymeradwyo megis adolygiad cyfnodol, dilysu rhaglenni a monitro rhaglenni'n flynyddol.

10 **Ni** ddylai'r cyflwyniad enwi, na thrafod gallu aelodau unigol o staff. Ni ddylai drafod cwynion personol.

11 Os bydd y sefydliad a'r corff cynrychiolwyr eisiau cyflwyno DH ar y cyd, mae hyn yn dderbyniol cyhyd ag y bo wedi'i egluro yn y ddogfen bod y DH yn adlewyrchiad go iawn o farn y myfyrwyr a'r broses o sicrhau cyfranogaeth y myfyrwyr.

Cyflwyniad

12 Dylid pasio'r cyflwyniad ysgrifenedig i ASA heb fod yn hwyrach na 10 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Bydd CC ASA yn cadarnhau'r dyddiad yn y cyfarfod cychwynnol a gynhelir naw mis cyn yr ymweliad adolygu. Gydag adolygiad cydweithredol ar wahân neu hybrid gofynnir i'r sefydliad a'r myfyrwyr gyflwyno eu cyflwyniadau 18 wythnos cyn yr ymweliad adolygu.

Cyfrinachedd

13 Mae ASA yn annog y corff myfyrwyr yn gryf i rannu ei gyflwyniad ysgrifenedig gyda'r sefydliad, ac i'r sefydliad rannu ei DH gyda'r corff myfyrwyr. Mae'r gallu yma i fod yn agored yn fanteisiol oherwydd mae'n galluogi'r tîm adolygu i drafod y ddwy ddogfen yn rhydd gyda'r sefydliad a'r myfyrwyr yn ystod yr adolygiad, a gwirio cywirdeb eu cynnwys ac mae'n annog agwedd agored a thryloyw i'r adolygiad. Fe allai'r corff myfyrwyr hefyd, os bydd yn dymuno hynny, ofyn i'r adolygwyr beidio â rhannu eu cyflwyniad ysgrifenedig gyda'r sefydliad a'i gadw'n gyfrinachol gan ASA a'r tîm. Bydd ASA yn parchu'r dymuniad yma, ond gofynnir i'r myfyrwyr gofio ei bod hi'n anochel y bydd cyfyngiadau ar y defnydd y gall y tîm ei wneud o gyflwyniad cyfrinachol am nad yw staff y sefydliad yn ymwybodol o'i gynnwys.

14 Os nad yw cynnwys y cyflwyniad ysgrifenedig i gael ei rannu gyda'r sefydliad, rhaid nodi hyn yn glir ar flaen y ddogfen.

Dilyniant

15 Mae gweithgareddau'n ymwneud ag Adolygiad Sefydliadol yn ymestyn dros gyfnod o ryw 12 mis, o'r cyfarfod cychwynnol i'r amser pan fo ASA yn derbyn sylwadau'r sefydliad am yr adroddiad drafft. Byddai ASA yn gofyn i sefydliadau sicrhau bod myfyrwyr yn cael derbyn pob gwybodaeth am y broses ac yn cyfranogi'n llawn ynddi bob amser. Unwaith y bydd yr adolygiad drosodd, mae ASA yn argymell y dylid rhannu'r adroddiad drafft gyda chynrychiolwyr y myfyrwyr a'u bod yn cael cyfle i roi eu sylwadau ar faterion cywirdeb.

16 I gefnogi adolygiad mewnol rheolaidd a chyson o reoli ansawdd a helpu'r corff cynrychiolwyr pan fyddent yn paratoi ar gyfer Adolygiad Sefydliadol allanol efallai y bydd corff cynrychiolwyr y myfyrwyr eisiau datblygu ffordd o gefnogi cyfnewidiad gwybodaeth rheolaidd gyda'r sefydliad am wella a sicrhau ansawdd, er enghraifft: datganiad myfyrwyr blynyddol.

Gweithgareddau cysylltiedig

17 Bydd ASA yn gweithio gyda CCAUC ac UCM Cymru i hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a chefnogi a fydd yn datblygu eu dealltwriaeth o bwrpas a dulliau adolygu allanol ac i'w helpu i gael dealltwriaeth fwy eglur o'r cyd-destun y mae AU yng Nghymru yn gweithredu ynddo.

18 Mae CCAUC, ac UCM Cymru wedi sefydlu prosiect 'Dweud eich dweud', sydd wedi'i gefnogi gan ASA, AUC a'r Academi AU sy'n gobeithio hyfforddi a chefnogi cynrychiolwyr myfyrwyr i gymryd rhan yn y trefniadau gwella a sicrhau ansawdd mewnol yn eu sefydliadau AU eu hunain. Mae'r prosiect yma'n rhan o ymdrech ehangach i gydlynu ymdrechion a rhannu adnoddau drwy Gymru er mwyn gwella ymgysylltiad y myfyrwyr â sicrhau a gwella ansawdd.

Atodiad G: Gwelliant

1 Mae ASA yn cydnabod ymreolaeth sefydliadau AU mewn perthynas â materion academaidd. Mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb am sicrhau bod y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr yn gyson addas er mwyn eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau dysgu sy'n ofynnol er mwyn cwblhau eu graddau. Mae natur unigol bob sefydliad a'i genhadaeth yn golygu bod modd gwella cyfleoedd dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Dull ASA mewn Adolygiad Sefydliadol yw cefnogi ac annog sefydliadau yn eu gwaith i wella cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr.

2 Mae ASA wedi darparu diffiniad gweithio o 'wella ansawdd' i bwrpasau ei waith adolygu ac archwilio. Er bod pwyslais cynyddol wedi bod ar welliant amlwg mewn ansawdd, mae ASA yn cydnabod nad oes un diffiniad unigol wedi'i dderbyn ar draws y sector. Gallai rhai sefydliadau ddefnyddio termau eraill i gyfleu ystyr gwelliant, er enghraifft 'gwelliant parhaus' ac 'arloesi'. Y bwriad yw bod y diffiniad a ddefnyddir gan ASA yn gadael lle i sefydliadau ddilyn eu diffiniadau eu hunain o welliant. Ei bwrpas yw sicrhau bod yr holl bartïon sy'n cymryd rhan yn y broses adolygu, yn ogystal â darllenwyr yr adroddiadau adolygu, yn deall yn glir yr hyn a olygir gan welliant i bwrpasau'r dull adolygu. Mae'n bwysig bod diffiniad ASA yn caniatáu i sefydliadau bennu eu dulliau eu hunain o sicrhau gwelliant mewn ansawdd a gwirio bod gwelliant wedi digwydd mewn cyfleoedd dysgu.

3 Yn yr un ffordd ag y mae ASA yn cydnabod cymhlethdod yn ymwneud â gwahanol ddiffiniadau o wella ansawdd, mae hefyd yn cydnabod bod amrywiaeth yn agweddau gwahanol sefydliadau tuag at welliant. Mae gan rai sefydliadau strategaethau drwy'r sefydliad cyfan a/neu strwythurau ffurfiol ar wahân, megis pwyllgorau, gweithgorau ac unedau. Gall rhai ddangos bod agweddau colegol a/neu fwy anffurfiol tuag at reoli ansawdd a safonau academaidd yn effeithiol. Am y rhesymau yma mae gan dimau adolygu ddiddordeb yn effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cyflawni amcanion y sefydliad ac i ba raddau y mae ei staff a myfyrwyr yn deall ei drefniadau.

4 I bwrpasau'r Adolygiad Sefydliadol, ystyrir gwella ansawdd fel proses yn hytrach na chanlyniad. Bydd timau adolygu'n chwilio am dystiolaeth o gynllunio sefydliadol systematig i adnabod y meysydd sydd angen gwella ac i ddod â newid. Elfen arall yn y broses yma yw'r ffordd y mae'r sefydliad yn gwerthuso a yw ei ddull o wella'n cyflawni ei amcanion ei hun. Bydd gwerthusiad o'r fath yn ymwneud â chasglu data a gwybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol. Gallai gwybodaeth o'r fath ddod gan arholwyr neu gynghorwyr allanol, o gyrff allanol megis cyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol, a'r Academi Addysg Uwch, gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr, o ganlyniadau trefnau adolygu mewnol, ac o bolisïau mewnol, megis honno a allai fod yn rhan o strategaeth dysgu ac addysgu'r sefydliad. Mae gwerthusiad y sefydliad o'i brosesau mewnol ei hun ac effaith ei weithgareddau sydd wedi'u bwriadu i wella cyfleoedd dysgu yn ystyriaeth bwysig hefyd.

5 Mae cwestiwn am y berthynas rhwng gwelliant a nodweddion o arfer da. Does dim cysylltiad o anghenraid rhwng diffiniadau o welliant a nodweddion o arfer da. Dydy nodwedd o arfer da ddim o anghenraid yn deillio o 'gymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol'. Ar y llaw arall, efallai na fydd dull sefydliad o wella o anghenraid yn cynhyrchu nodweddion penodol sy'n gwneud 'cyfraniad arbennig o bositif tuag at ddull y sefydliad o reoli safonau academaidd ac ansawdd y ddarpariaeth'. Ond, fe allai'r dull gael yr effaith, sydd wedi'i gydnabod gan y sefydliad a gan dîm adolygu, o wella ansawdd y cyfleoedd dysgu'n gynyddrannol ar draws ei ddarpariaeth i gyd. Wrth werthuso gwelliant yn arbennig, mae timau adolygu'n debygol o ganolbwyntio ar yr agwedd a gymerir gan y sefydliad, yn hytrach nag ar welliannau unigol, neu ar nodweddion unigol o arfer da.

6 Mae dull ASA a'i dimau adolygu o gefnogi sefydliadau yn y gwaith i wella cyfleoedd dysgu'n mynd i olygu bod argymhellion am faterion gwella'n mynd i gael eu cyflwyno lle gallent helpu sefydliadau i gydnabod a manteisio ar gyfleoedd i wella ac i alluogi'r sefydliad i gyflawni'r amcanion y mae wedi'u nodi. Efallai y bydd amseroedd, fodd bynnag, lle mae'r ffordd y mae sefydliad yn ymdrin â gwelliant yn rhoi safonau academaidd ac ansawdd y cyfleoedd dysgu mewn perygl, gan olygu y byddai'n rhaid i dimau adolygu wneud argymhellion cryfach.

Atodiad H: Dewis a hyfforddi timau adolygu

Cyflwyniad

1 ASA sy'n dewis yr adolygwyr a'r ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu ar sail meini prawf dethol sydd wedi eu cyhoeddi ac, yn gyffredinol, o enwebiadau a wneir gan sefydliadau. Caiff sefydliadau enwebu aelodau o'u staff eu hunain ac aelodau o staff sefydliadau addysg bellach (AB) partner i fod yn aelodau o dimau adolygu. Gellir enwebu archwilwyr sefydliadol presennol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac adolygwyr yn yr Alban, i gymryd rhan mewn Adolygiadau Sefydliadol yng Nghymru. Penodir adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu ar y sail eu bod ar gael ar gyfer o leiaf tri adolygiad dros gyfnod o ddwy flynedd. Cânt barhau y tu hwnt i'r cyfnod yma drwy gytundeb o'r ddwy ochr.

2 Mae'r nodweddion sy'n ofynnol mewn adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu wedi eu hamlinellu isod. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y timau o adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu yn adlewyrchu cydbwyseddau adrannol, disgyblaethol, rhywiau ac ethnigrwydd. Disgwylir i bob tîm adolygu gynnwys o leiaf un aelod o sefydliad AU yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon, ac o leiaf un aelod gyda phrofiad diweddar a sylweddol o'r sector addysg uwch yng Nghymru.

3 Bydd yr wybodaeth am benodi timau adolygu yn cyrraedd yn newis iaith y sefydliad, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg cymeradwy ASA (gweler Atodiad L).

4 Ni phenodir adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu ar dimau sy'n adolygu eu sefydliadau nhw.

5 Rhoddir hyfforddiant i adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu gan ASA. Pwrpas yr hyfforddiant yw sicrhau bod pawb:

- yn deall pwrpas, egwyddorion craidd a gofynion y broses Adolygiad Sefydliadol yng Nghymru, a'r ffyrdd y mae'r broses yn gwahaniaethu oddi wrth y dulliau adolygu sydd ar waith mewn rhannau eraill yn y DU
- yn gyfarwydd â'r trefnau i'w dilyn
- yn derbyn gwybodaeth benodol am gyd-destun AU yng Nghymru, polisïau AU Llywodraeth Cynulliad Cymru, a, lle bo'n briodol, swyddogaeth Prifysgol Cymru
- yn deall eu swyddogaethau a'u tasgau eu hunain, pwysigrwydd cydlyniad y tîm, disgwyliadau ASA ohonynt a'r rheolau ymarweddiad sy'n llywio'r broses
- yn cael y cyfle i archwilio ac ymarfer technegau casglu a dadansoddi data, i ddatblygu rhaglenni ar gyfer ymweliadau, i lunio a phrofi damcaniaethau, i ffurfio barn a datganiadau am hyder, ac i baratoi adroddiadau.

Y nodweddion gofynnol mewn adolygwr

- profiad diweddar o reolaeth academaidd a sicrhau ansawdd ar lefel sefydliadol mewn AU yn y DU
- credadwyaeth bersonol a phroffesiynol gyda phenaethiaid sefydliadau ac uwch reolwyr yn y sector AU
- y gallu i gasglu nifer fawr o wybodaeth wahanol; dadansoddi a dod i gasgliadau dibynadwy am drefniadau cymhleth; a gwneud gwaith ymchwil ac archwiliad i dystiolaeth ddogfennol a llafar er mwyn ffurfio barn
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar clir.

Y nodweddion gofynnol ymhob ysgrifennydd/cydlynydd adolygu

- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn pum mlynedd) o weinyddu rheolaeth academaidd a/neu sicrhau ansawdd ar lefel sefydliadol mewn AU yn y DU
- profiad eang o weithio gyda phwyllgorau uwch mewn AU yn y DU
- y gallu i gasglu nifer fawr o wybodaeth wahanol, a dadansoddi a gwneud beirniadaethau dibynadwy am drefniadau cymhleth
- y gallu i gadw cofnod dibynadwy o drafodaethau; i grynhoi'r canlyniadau allweddol; ac i ddrafftio nodiadau mewn fformat penodol ac o fewn amseroedd penodol.

Nodweddion ychwanegol sy'n ofynnol mewn adolygwyr myfyrwyr

6 Yn ychwanegol at y nodweddion sy'n ofynnol mewn adolygwyr, bydd adolygwyr myfyrwyr yn gallu dangos:

- profiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn dwy flynedd) o astudio mewn sefydliadau AU yn y DU, sy'n gyfatebol ag o leiaf blwyddyn o addysg amser llawn
- profiad o gynrychioli diddordebau myfyrwyr ar lefel sefydliadol (gan gynnwys lefel y gyfadran neu'r ysgol)
- ymwybyddiaeth gyffredinol o amrywiaeth yn sector AU y DU y tu hwnt i'w sefydliad 'cartref', ac ymwybyddiaeth eang o drefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd a gwelliant (bydd hyfforddiant ASA yn darparu mwy o wybodaeth am hyn)
- y gallu i ddadansoddi'n feirniadol ac adolygu gwybodaeth a thystiolaeth gymhleth.

Atodiad I: Yr hyrwyddwr sefydliadol

Swyddogaeth yr hyrwyddwr sefydliadol

1 Gwahoddir y sefydliad i benodi hyrwyddwr sefydliadol i gefnogi'r adolygiad. Mae swyddogaeth yr hyrwyddwr wedi'i newid er mwyn gwella llif yr wybodaeth rhwng y tîm a'r sefydliad. Dyma swyddogaeth yr hyrwyddwr sefydliadol:

- gweithredu fel y cyswllt sefydliadol cyntaf ar gyfer y CC yn ystod y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y cyfarfod cychwynnol. Lle mae sefydliad yn cael adolygiad cydweithredol ar wahân neu lle mae'r adolygiad yn cynnwys ymweliadau â sefydliadau partner (y model hybrid), bydd yr hyrwyddwr yn gweithredu fel y cyswllt cyntaf rhwng y sefydliad dan adolygiad, y partner cydweithredol ac ASA
- gweithredu fel y cyswllt sefydliadol cyntaf ar gyfer y tîm adolygu yn ystod yr ymweliadau briffio ac adolygu
- cymryd rhan yn nhrafodaethau'r tîm adolygu am y DH ac unrhyw ddogfennaeth gefnogol ar ddiwrnod cyntaf yr ymweliad briffio, a darparu cyngor ac arweiniad i'r tîm wedi hynny am ffynonellau gwybodaeth pellach ac am strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r sefydliad
- mynychu cyfarfodydd preifat y tîm adolygu yn ystod yr ymweliad briffio a hefyd ei gyfarfodydd gyda'r grŵp o staff sy'n cymryd rhan mewn rheoli ansawdd ar lefel uwch
- sicrhau bod gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd gan y tîm adolygu yn yr ymweliad briffio, gan gyfrannu at effeithioldeb yr adolygiad, ac at yr hyrwyddiad ansawdd a safonau dilynol o fewn y sefydliad
- cyfarfod y tîm adolygu ar gais y tîm yn ystod yr ymweliad adolygu, er mwyn darparu arweiniad pellach am ffynonellau gwybodaeth ac eglurhad am faterion yn ymwneud â strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r sefydliad
- sicrhau bod y corff cynrychiolwyr myfyrwyr wedi'i hysbysu am, ac yn deall, cynnydd y tîm adolygu.

2 Yn yr ymweliad adolygu, nid yw'r hyrwyddwr yn bresennol ar gyfer unrhyw rai o gyfarfodydd preifat y tîm adolygu, y maen nhw i gyd yn cynnwys trafodaethau am y canfyddiadau a/neu'r beirniadaethau sy'n datblygu gan y tîm adolygu. Yn ystod yr ymweliad adolygu bydd yr hyrwyddwr yn cael y cyfle i gynnal cyfarfodydd rheolaidd a fydd yn darparu cyfleoedd i'r tîm ac i'r sefydliad geisio eglurhad pellach y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol. Bwriad y datblygiad yma yw gwella cyfathrebiadau rhwng y sefydliadau a'r tîm yn ystod yr wythnos adolygu a galluogi sefydliadau i gael gwell dealltwriaeth o linellau ymholiad y tîm yn ystod yr adolygiad.

3 Gall yr hyrwyddwr sefydliadol weithredu fel pwynt cyswllt defnyddiol i fyfyrwyr a'u cynrychiolwyr wrth baratoi ar gyfer yr adolygiad. Gall yr hyrwyddwr sefydliadol sicrhau bod corff cynrychiolwyr y myfyrwyr yn hollol ymwybodol o'r broses adolygu, ei phwrpas a rôl y myfyrwyr oddi mewn iddi a rhoi arweiniad a chefnogaeth iddynt wrth baratoi cyflwyniad y myfyriwr a chyfarfodydd gyda'r tîm adolygu.

4 Os nad yw'r sefydliad eisiau penodi hyrwyddwr, mae ASA yn gofyn bod y sefydliad yn dewis aelod o'i staff fel cyswllt sefydliadol cyntaf ar gyfer y CC a'r ysgrifennydd adolygu.

Penodiad a hyfforddiant

5 Mae'n rhaid i'r sawl a benodir fel hyrwyddwr sefydliadol feddu ar:

- wybodaeth weithredol dda o systemau a threfnau'r sefydliad, a gwerthfawrogiad o faterion ansawdd a safonau
- wybodaeth a dealltwriaeth o'r broses Adolygiad Sefydliadol
- y gallu i gyfathrebu'n glir, i ddatblygu cydberthnasau ac i barchu cyfrinachedd.

6 Wrth wneud y penodiad, gofynnir i'r sefydliad gofio bod y broses adolygu'n archwilio'n drwyadl ac yn darparu sylwadau am effeithioldeb trefniadau sefydliadol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau. Efallai na fydd aelod o staff sydd â chyfrifoldebau sylweddol mewn perthynas â chynllunio, cynnal a/neu weithredu'r trefniadau yma'n teimlo'n gyfforddus yn chwarae rhan allweddol yn y broses adolygu, ac ni fydd yn un o'r bobl orau i roi cyngor ac arweiniad gwrthrychol i'r tîm adolygu.

7 Disgwylir i'r sawl a benodir gan y sefydliad weithredu fel hyrwyddwr ar gyfer yr ymweliad briffio a'r ymweliad adolygu. Ar ôl i'r ymweliad briffio gychwyn, dim ond dan amgylchiadau eithriadol, a dim ond gyda chytundeb ASA y caiff y sefydliad newid ei hyrwyddwr penodedig.

8 Gwahoddir bob hyrwyddwr i fynychu sesiwn esbonio wedi'i ddarparu gan ASA.

Protocolau

9 Drwy gydol yr ymweliad briffio, gall yr hyrwyddwr sefydliadol helpu'r tîm adolygu i gael dealltwriaeth eglur a chywir o strwythurau, polisïau, blaenoriaethau a threfnau'r sefydliad. Mae'r swyddogaeth yma'n gofyn bod yr hyrwyddwr yn arsyllu'n wrthrychol, yn cyfathrebu'n glir gyda'r tîm lle bo cais iddo wneud hynny, ac yn sefydlu cydberthnasau effeithiol gyda'r CC a'r ysgrifennydd adolygu. Ni ddylai'r hyrwyddwr weithredu fel adfocad ar gyfer y sefydliad. Ond, mae caniatâd iddo ef/iddi hi:

- ddod â gwybodaeth ychwanegol i sylw'r tîm
- geisio cywiro ffeithiau anghywir
- ddarparu cyngor ar faterion sefydliadol
- helpu'r sefydliad i ddeall materion a godir gan y tîm.

10 Y tîm adolygu sydd i benderfynu sut i ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan yr hyrwyddwr yn y ffordd orau. Nid yw'r hyrwyddwr yn aelod o'r tîm ac ni fydd yn gwneud beirniadaeth am y ddarpariaeth.

11 Mae gofyn i'r hyrwyddwr gadw yr un confensiynau cyfrinachedd ag aelodau'r tîm adolygu. Rhaid parchu'n arbennig gyfrinachedd y defnydd ysgrifenedig a ddarperir gan aelodau'r tîm cyn neu yn ystod yr ymweliad briffio, ac ni cheir defnyddio unrhyw wybodaeth a dderbynnir mewn ffordd sy'n caniatáu i unigolion gael eu hadnabod. Ond, ar yr amod ei fod/ei bod yn parchu cyfrinachedd yn briodol, caiff yr hyrwyddwr wneud nodiadau am drafodaethau'r tîm a darparu adroddiad am hyn i aelodau eraill o staff, er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad ddealltwriaeth dda o'r materion a godwyd gan y tîm ar y cam yma yn y broses. Gallai hyn gyfrannu at effeithioldeb yr adolygiad, ac at hyrwyddiad dilynol ansawdd a safonau o fewn y sefydliad.

12 Ni all yr hyrwyddwr ddefnyddio system gyfathrebu electronig ASA ar gyfer timau adolygu.

13 Mae gan y tîm adolygu'r hawl i ofyn i'r hyrwyddwr adael y broses adolygu ar unrhyw bwynt, os bydd yn ystyried bod yna wrthdrawiad buddiannau, neu fod presenoldeb yr hyrwyddwr yn amharu ar y trafodaethau.

Atodiad J: Protocolau ar gyfer rhaglen dreigl o adolygiadau

1 Hyd yn ddiweddar, mae wedi bod yn beth arferol i broses adolygu gael ei sefydlu ar gyfer amser penodol, sef chwe blynedd fel arfer. Ond, y farn ddiweddar yw bod y cylchred sefydlog yma o adolygiad dros chwe blynedd yn rhy anhyblyg. Y bwriad yw bod rhaglen dreigl o adolygiadau'n caniatáu mwy o hyblygrwydd yn y broses adolygu ac yn galluogi newidiadau yn y dull Adolygiad Sefydliadol ar y pryd yn hytrach na bo raid aros hyd ddiwedd y cylchred. Mae hyn yn golygu bod modd cyflwyno newidiadau mewn rhannau eraill o'r adolygiad a bod modd cyflwyno dulliau archwilio a ystyrir yn arferion gorau i'r rhaglen o adolygiadau heb aros i gylchred adolygu arbennig ddod i ben. Bydd pob sefydliad wedi'i adolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o chwe blynedd dan y rhaglen dreigl.

2 Isod mae'r protocolau y bydd ASA yn eu defnyddio i reoli'r rhaglen dreigl.

- Bydd ASA yn hysbysu CCAUC, AUC, UCM Cymru a darparwyr AU yn rheolaidd am ddatblygiadau.
- Bydd newidiadau i'r broses Adolygiad Sefydliadol a'r amser a neilltuir i sefydliadau gael paratoi ar gyfer unrhyw newid yn dibynnu ar raddau'r newid i'r dull adolygu. Efallai y bydd modd gwneud rhai newidiadau i'r dull adolygu heb unrhyw amhariad i'r rhaglen adolygiadau sydd wedi'i hamserlennu, ond efallai y bydd angen amser i ASA a sefydliadau AU unigol baratoi ar gyfer gwneud newidiadau eraill.
- Cyn gwneud unrhyw newidiadau mawr i'r dull adolygu bydd ASA yn ymgynghori gyda CCAUC, AUC, UCM Cymru, sefydliadau AU unigol ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.
- Fel arfer, bydd unrhyw newidiadau mawr a gyflwynir gyda llai na 12 mis o rybudd o ddyddiad yr adolygiad drwy gytundeb cyfartal rhwng ASA a'r sefydliad perthnasol yn unig.
- Bydd ASA yn diweddaru'r llawlyfr yma ac yn darparu cefnogaeth ac arweiniad ychwanegol i sefydliadau unigol fel y bo'n briodol.

Atodiad K: Dilyniant canol-rhaglen

1 Pwrpas yr adroddiad dilynol canol-rhaglen yw darparu adborth i'r sefydliad am ganfyddiadau ASA am ei datblygiad ers yr adolygiad blaenorol, ac am gryfderau a gwendidau yn ei chynlluniau cyfredol a'i chynlluniau yn y dyfodol er mwyn sicrhau a gwella ansawdd.

2 I sefydliadau sydd wedi derbyn beirniadaeth o hyder cyfyngedig neu ddim hyder yn eu hadolygiad blaenorol, bydd trefniadau eraill yn berthnasol (gwelwch Atodiad E).

3 Mae proses yr adolygiad dilynol canol-rhaglen yn cynnwys:

- cysylltiad cychwynnol gan ASA i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys dyddiad yr ymweliad canol-rhaglen a'r wybodaeth sy'n ofynnol.

4 Heb fod yn hwyrach na chwe wythnos cyn yr ymweliad, bydd y sefydliad yn cyflwyno adroddiad byr i ASA sy'n crynhoi:

- y pethau a wnaeth i ddelio â'r argymhellion yn yr adroddiad Adolygiad Sefydliadol
- y pethau a wnaeth i ddelio â'r argymhellion mewn adroddiadau gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoliadol (PSRB) ac unrhyw adolygiadau perthnasol eraill gan gyrff allanol ers yr adolygiad
- unrhyw newidiadau mawr yn strwythur a threfn y sefydliad ers yr adolygiad
- unrhyw ddatblygiadau strategol allweddol (er enghraifft, mewn dysgu ac addysgu, ehangu cyfranogaeth, gwaith ymchwil neu reoli gwybodaeth) ers yr adolygiad
- lle bo'n berthnasol, unrhyw ddatblygiadau mewn trefniadau cydweithredol gyda sefydliadau partner neu gyrff eraill ers yr adolygiad
- bwriadau'r sefydliad i ddatblygu trefnau sicrhau ansawdd ymhellach a hybu cyfleoedd dysgu.

5 Os bydd y sefydliad eisiau gwneud hynny, gellid cyflwyno amrediad cyfyngedig o ddogfennaeth gefnogi gyda'r adroddiad.

6 Bydd dau aelod o staff ASA yn ymweld â'r sefydliad. Nid yw'r ymweliad yn para mwy na diwrnod ac mae'n cynnwys:

- trafodaeth ffurfiol gydag un neu ddau o staff uwch y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ansawdd a safonau academaidd
- cyfle i ddarllen sampl o adroddiadau adolygiad mewnol a gynhyrchwyd yn y tair blynedd ers yr adolygiad, gyda'r holl adroddiadau perthnasol o adolygiadau allanol eraill, er enghraifft, adroddiadau PSRB
- cyfle i ystyried amrediad o ddefnydd wedi'i gyhoeddi yn ymwneud ag ansawdd a safonau, yn cynnwys gwybodaeth a gyhoeddwyd ar wefan y sefydliad.

7 O fewn 12 wythnos i'r ymweliad, cyflwyno adroddiad byr i'r sefydliad yn disgrifio casgliadau ASA am y datblygiad a wnaed ers yr adolygiad blaenorol ac yn amlygu'r cryfderau a'r gwendidau a wêl yn y cynlluniau cyfredol a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer sicrhau a gwella ansawdd. Bydd y sefydliad yn cael cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft. Ni chaiff yr adroddiad yma ei chyhoeddi ond darperir copi ar gyfer CCAUC.

8 Ni all y broses canol-cylchred ddiweddu gydag argymhellion neu benderfyniad bod beirniadaethau'r tîm adolygu blaenorol i gael eu haddasu neu eu diwygio.

9 Os bydd adroddiad dilynol canol-rhaglen yn dangos bod yna anawsterau allai fod yn rhai difrifol mewn perthynas â rheolaeth y sefydliad o'i ansawdd a'i safonau, gallai ASA benderfynu y dylai dau adolygydd ac aelod o staff ASA wneud ymweliad pellach. Os bydd yr ail ymweliad yn dangos bod yna faterion sy'n achosi pryder difrifol nad yw'r sefydliad yn delio â nhw'n foddhaol, gallai ASA, mewn ymgynghoriad â CCAUC, ddod â dyddiad yr Adolygiad Sefydliadol nesaf yn ei flaen.

Atodiad L: Adolygiad sefydliadol a Chynllun Iaith Gymraeg ASA

1 Wrth gynllunio, gweithredu a darparu adroddiad am adolygiadau sefydliadol yng Nghymru, mae ASA wedi ei hymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Mae ASA hefyd yn ymrwymedig i gyrraedd y disgwyliadau sydd gan bobl ohoni mewn perthynas â rhoi statws cyfartal i'r ddwy iaith. Mewn unrhyw adolygiad mewn sefydliadau AU yng Nghymru, mae ASA yn cydnabod hawl unrhyw berson, yn cynnwys myfyrwyr, i siarad gyda'r tîm adolygu yn y Gymraeg. Mae ASA hefyd yn cydnabod hawl unrhyw aelod dwyieithog o dîm adolygu yn ystod adolygiad yng Nghymru i siarad yn y Gymraeg. Mewn sefyllfaoedd o'r fath bydd ASA yn darparu adnoddau cyfieithu ar y pryd. Os na fydd hynny'n ymarferol, bydd yr aelod o staff neu'r adolygwr yn darparu crynodeb neu gyfieithiad o'r hyn a ddywedodd o/hi yn y Saesneg.

2 Yn y cyfarfodydd adolygu-cynllunio cychwynnol gyda sefydliadau AU mae ASA yn sicrhau bod y CC penodedig yn canfod beth yw'r dewis iaith a fynegwyd gan y sefydliad ar gyfer gweithredu'r adolygiad. Mae'r CC yn trafod gyda'r sefydliad pa elfennau o'r broses adolygu sydd i gael eu gweithredu yn y Gymraeg, gan ystyried bod posib defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd i hyrwyddo hynny. I bwrpasau'r ymweliad cychwynnol gan y CC, bydd ASA yn canfod, drwy gyfathrebiad dwyieithog gyda'r sefydliad, i ba raddau y bydd yr ymweliad cychwynnol hwnnw wedi ei weithredu'n ddwyieithog.

3 Bydd ASA yn ceisio penodi adolygwyr ac ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu sy'n ddwyieithog. Bydd ei threfniadau ar gyfer hysbysebu a phenodi yn cael eu diwygio i gefnogi'r amcan yma i bwrpasau adolygiad yng Nghymru.

4 Yn dilyn cytundeb gyda ASA ynglŷn â pha elfennau o'r adolygiad fydd wedi'u gweithredu'n ddwyieithog, bydd sefydliadau'n derbyn gwahoddiad i gyflwyno i ASA, yn unol â'r amserlen arferol, fersiynau dwyieithog o'r dogfennau allweddol sy'n tanategu'r broses adolygu, ee y DH. Y sefydliadau ddylai benderfynu a fydd unrhyw ddefnydd atodol sy'n cefnogi'r ddogfennaeth allweddol wedi ei ddarparu'n ddwyieithog hefyd.

5 Bydd ASA yn gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y gweithgareddau adolygu hynny y mae ASA a'r sefydliad AU wedi cytuno i'w gweithredu'n ddwyieithog. Fel arfer, mae'r trefniadau yma'n digwydd pan fydd adolygwyr fel tîm yn cyfarfod â grwpiau o staff a/neu myfyrwyr o'r sefydliad AU y mae un neu fwy ohonynt yn dewis cyfranogi yn y Gymraeg.

6 Mae ASA yn cydnabod bod rhai sefydliadau AU yng Nghymru, yn fwy nag eraill, yn gweithredu mewn cyd-destun ac ethos lle mae gan y Gymraeg a'r Saesneg werth cyfartal yn eu gweithgareddau arferol. Mae ASA yn parchu hyn ac yn bwriadu penodi ysgrifenwyr/cydlynwyr adolygu dwyieithog i hybu gweithrediad esmwyth y broses adolygu mewn sefydliadau o'r fath. Mae manylion llawn Cynllun Iaith Gymraeg ASA ar gael ar ei gwefan.

Atodiad M: Y cefndir, yr egwyddorion a'r broses lle mae darpariaeth gydweithredol yn weithgaredd adolygu hybrid neu ar wahân

1 Mae'r adolygiad o ddarpariaeth gydweithredol yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am safonau academaidd dyfarniadau'n gorwedd gyda'r sefydliadau hynny sydd â'r pwerau i roi'r dyfarniadau, neu sydd wedi derbyn cyfrifoldeb gan bobl eraill (megis Prifysgol Cymru) am gynnal safonau academaidd eu dyfarniadau.

2 Cymerir mai ystyr y term 'darpariaeth gydweithredol' yw 'darpariaeth addysgol sy'n arwain at ddyfarniad, neu at gredyd penodol sy'n cyfri tuag at ddyfarniad, gan sefydliad dyfarnu a ddarperir a/neu a gefnogir a/neu a asesir drwy drefniant â sefydliad partner' [*Cod ymarfer ar gyfer sicrhau ansawdd academaidd a safonau mewn addysg uwch (Cod Ymarfer), Adran 2: Darpariaeth gydweithredol a dysgu hyblyg a dosranedig (gan gynnwys e-ddysgu), paragraff 13*].

3 Pan fo ASA yn ystyried bod darpariaeth gydweithredol sefydliad yn rhy fawr a chymhleth i gael ei hystyried yn rhan o Adolygiad Sefydliadol, caiff ei hadolygu naill ai drwy Adolygiad Sefydliadol hybrid (model hybrid) neu drwy adolygiad ar wahân o ddarpariaeth gydweithredol (model ar wahân). Wrth wneud penderfyniad am y math o agwedd i'w gymryd bydd ASA yn ystyried y ffactorau dilynol, sef nifer y:

- partneriaid tramor
- partneriaid yn y DU
- partneriaid preifat
- myfyrwyr ar bob teip o bartneriaeth

a

- chanlyniadau'r gweithgareddau adolygu ac adolygiadau blaenorol
- a'r lefel o weithgareddau adolygu sydd ar y gweill.

4 Mae'r model hybrid a'r model ar wahân yn dilyn y broses ar gyfer Adolygiad Sefydliadol darpariaeth 'gartref' gyda'r eithriadau dilynol:

- mae'r model hybrid yn cynnwys ymweliadau (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rhith-ymweliadau) â hyd at dri chysylltiad partner, i ddigwydd rhwng yr ymweliad briffio a'r ymweliad adolygu
- mae'r model ar wahân yn cynnwys hyd at chwe ymweliad (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rhith-ymweliadau) â chysylltiadau partner
- mae'r model ar wahân yn canolbwyntio'n unig ar y ffordd mae sefydliad dyfarnu neu gyfrifol yn gweithredu ei gyfrifoldebau am yr hyn a wneir yn ei enw a than eu hawdurdod, drwy drefniant cydweithredol â sefydliad partner.

5 Yn y ddwy sefyllfa, nod ymweliadau â sefydliadau partner yw galluogi'r tîm adolygu i ddeall yn fwy eglur sut y rheolir y ddarpariaeth gydweithredol.

6 Mae'r adolygiad o ddarpariaeth gydweithredol yn archwilio'r prif feysydd dilynol yng nghyd-destun y *Cod ymarfer*:

- effeithiolrwydd mecanweithiau a strwythurau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad sy'n dyfarnu neu'r sefydliad sy'n gyfrifol ar gyfer ei ddarpariaeth gydweithredol, gan gynnwys y ffordd y mae'r sefydliad yma'n adolygu'n rheolaidd ansawdd y rhaglenni sy'n arwain at ei ddyfarniadau a gynigir drwy drefniadau partneriaeth ac yn adolygu safonau'r dyfarniadau hynny, a sut mae'n ei fodloni eu hun bod yr argymhellion a geir o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu gweithredu
- cywirdeb, cyflawnder a dibynadwyaeth yr wybodaeth y mae'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn ei gyhoeddi yn ei enw, neu'n ei awdurdodi i gael ei gyhoeddi yn ei enw, am ansawdd y rhaglenni sy'n arwain at ei ddyfarniadau, a safonau academaidd y dyfarniadau hynny
- esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd a safonau academaidd y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol ar gyfer ei ddarpariaeth gydweithredol, fel y mae wedi'i weithredu gan drefniadau partneriaeth unigol er mwyn dangos pa mor ddilys a dibynadwy yw'r wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan y prosesau yma ar gyfer y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol.

7 Wrth archwilio'r meysydd yma, mae timau adolygu'n canolbwyntio'n arbennig ar:

- agwedd strategol y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol tuag at ei ddarpariaeth gydweithredol, gan gynnwys prosesau ar gyfer dethol a chymeradwyo cysylltiadau partner, a'r trefniadau ffurfiol ar gyfer y cysylltiadau hynny
- adolygiadau sicrhau ansawdd mewnol y ddarpariaeth gydweithredol a'u canlyniadau, gan gynnwys adolygiadau o'r bartneriaeth ac o'r rhaglen
- y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn darpariaeth gydweithredol, gan gynnwys y Seilwaith Academaidd a (lle bo'n berthnasol) y partneriaethau a gyllidir yn anuniongyrchol: codau ymarfer ar gyfer trefniadau rhyddfraint a chonsortia (CCAUC *W06/11HE: Arweiniad ar drefniadau partneriaeth rhwng Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach*)
- yr wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am ansawdd rhaglenni a safonau academaidd dyfarniadau a enillwyd drwy ddarpariaeth gydweithredol
- systemau mewnol y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol ar gyfer rheoli gwybodaeth, a'u cyfraniad tuag at ei oruchwyliaeth effeithiol ar ansawdd a safonau academaidd mewn darpariaeth gydweithredol
- ddatblygiad, defnydd a chyhoeddiad manylebau rhaglenni mewn darpariaeth gydweithredol
- safonau academaidd y rhaglenni cydweithredol
- brofiad myfyrwyr fel dysgwyr mewn darpariaeth gydweithredol
- rôl y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol o ran sicrhau ansawdd y staff addysgu mewn darpariaeth gydweithredol, a allai gynnwys meini prawf ar gyfer penodi staff addysgu a'r ffyrdd y caiff effeithiolrwydd yr addysgu ei werthuso, ei wella a'i wobrwyo

- rôl y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol o ran cefnogi'r sefydliad partner i wella ansawdd, hynny yw, i gymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu
- y trefniadau ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n astudio mewn sefydliadau cydweithredol.

Sut mae'r model hybrid ac ar wahân yn wahanol i'r Adolygiad Sefydliadol

Paratoi

8 Gydag adolygiad hybrid neu ar wahân, bydd un cyfarfod cychwynnol sy'n digwydd tua 36 wythnos cyn yr ymweliad adolygu. Yn y ddau achos, yn ogystal â chynnwys safonol y cyfarfod cychwynnol, bydd y CC a'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn trafod strwythur a chynnwys y dull a ddewiswyd ar gyfer adolygu'r ddarpariaeth gydweithredol; a sut y bydd y cysylltiadau partner wedi'u dewis, sut maent yn gweithredu a pha drefniadau sydd angen eu gwneud ar gyfer yr adolygiad.

9 Yn dilyn yr ymweliad cychwynnol, bydd y CC yn nodi sawl cysylltiad partner sydd i dderbyn ymweliad; yn y model hybrid bydd y nifer rhwng un a thri, yn y model ar wahân bydd hyd at chwech yn derbyn ymweliad. Bydd nifer y cysylltiadau sydd i dderbyn ymweliad yn dibynnu ar gymysgedd o ffactorau sy'n cynnwys: maint cyffredinol portffolio darpariaeth gydweithredol y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol a pha mor amrywiol ydyw, yr ystod o drefniadau ffurfiol o fewn y portffolio hwnnw, a lleoliad y cysylltiadau partner (dramor neu yn y DU) a bydd hyn wedi'i benderfynu mewn trafodaeth gyda'r sefydliad. Bydd y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn derbyn hysbysiad am y nifer o ymweliadau partner yn fuan ar ôl yr ymweliad cychwynnol. Nodwch, mae'r sefydliadau dyfarnu neu'r sefydliadau cyfrifol yn gyfrifol am gysylltu â'r sefydliadau partner i drefnu'r ymweliadau â'r cysylltiadau partner. Ni fydd ASA yn cyfathrebu'n uniongyrchol â sefydliadau partner ar unrhyw amser yn ystod y broses adolygu.

10 Nid oes unrhyw ddisgwyliad i sefydliad gynhyrchu DH ar wahân pan ddilynir model hybrid. Pan fydd darpariaeth gydweithredol sefydliad dyfarnu neu sefydliad cyfrifol yn derbyn ystyriaeth drwy weithgaredd ar wahân rywbryd ar ôl ei Adolygiad Sefydliadol, gallai'r sefydliad naill ai gynhyrchu DH ar wahân neu adeiladu ar y DH a gyflwynwyd ar gyfer yr Adolygiad Sefydliadol (Atodiad Q). Ar gyfer y model hybrid a'r model ar wahân, mae gofyn i'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol gyflwyno ei DH heb fod yn hwyrach na 18 wythnos cyn yr ymweliad adolygu (Atodiadau N ac O).

11 Pan fyddent yn ei derbyn, bydd ASA yn dosbarthu dogfennaeth y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol i'r tîm adolygu. Bydd y tîm yn gwneud dadansoddiad o'r ddogfennaeth ac, ar sail yr wybodaeth yma, bydd y tîm adolygu'n enwi'r cysylltiadau partner sydd i dderbyn ymweliad.

12 Wrth wneud ei benderfyniad ynglŷn â pha gysylltiadau partner sydd i dderbyn ymweliad, bydd y tîm adolygu'n ystyried dymunoldeb osgoi, lle bo'n bosibl, ymweliadau â phartneriaid sydd wedi derbyn adolygiad ASA neu adolygiad allanol arall yn ddiweddar. Bydd penderfyniad y tîm am y cysylltiadau partner sydd i dderbyn ymweliad wedi'i gyfleu i'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol tua dwy wythnos waith ar ôl cyflwyno'r DH.

13 Ni fydd ASA yn gofyn am DH wedi'i theilwra'n arbennig gan y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol i gefnogi'r ymweliadau â'r cysylltiadau partner. Fodd bynnag, bydd yn ddefnyddiol i'r tîm adolygu dderbyn, ar gyfer pob cysylltiad partner y mae'n ymweld ag:

- y cytundeb ffurfiol a gasglwyd yn fwyaf diweddar rhwng y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol a'r partner ar lefel sefydliadol a lefel rhaglen
- adroddiad y broses a ddefnyddiwyd gan y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol i'w sicrhau ei hun fod y partner yn sefydliad priodol i ddarparu ei ddyfarniadau, neu adroddiad adnewyddiad mwyaf diweddar y gymeradwyaeth honno ac ar gyfer sampl o raglenni sy'n rhan o'r cysylltiad, wedi'i bennu gan y tîm adolygu
- yr adroddiadau adolygu cyfnodol a blynyddol mwyaf diweddar a ddelir gan y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol, gydag adroddiad y gymeradwyaeth ddiweddaraf ar gyfer y rhaglenni neu'r ddarpariaeth
- y ddau adroddiad mwyaf diweddar gan arholwyr allanol sydd â chyfrifoldebau am y rhaglenni neu'r ddarpariaeth berthnasol wedi'u cynnwys yn y sampl, gyda'r wybodaeth a ganiataodd i'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol deimlo'n fodlon fod y pwyntiau a wneir gan yr arholwyr allanol wedi derbyn sylw.

14 Dylai'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol ddarparu'r rhain i ASA heb fod yn hwyrach na phythefnos cyn yr ymweliad briffio.

Yr ymweliad briffio

15 Bydd yr ymweliad briffio'n dilyn y strwythur safonol fel y mae wedi'i amlinellu ym mharagraffau 60-62 Adran I: Llawlyfr. Lle bo'n briodol, gellid gwahodd staff a myfyrwyr priodol o'r partneriaid cydweithredol i gyfarfodydd gyda'r tîm adolygu. Bydd hyn yn rhan o'r drafodaeth yn y cyfarfod cychwynnol.

16 Yn ychwanegol at y materion a bennwyd ym mharagraffau 60-62 Adran I; Llawlyfr, bydd y tîm adolygu a'r CC, ar ddiwedd yr ymweliad briffio, yn trafod gyda chynrychiolwyr o'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol y trefniadau terfynol ar gyfer ymweliadau â chysylltiadau partner, gan gynnwys y cyfarfodydd y mae eisiau eu cynnal, aelodau'r cyfarfodydd ac unrhyw ddogfennaeth sy'n berthnasol i'r ymweliadau yma.

Ymweliadau â chysylltiadau partner

17 Fel arfer, gwneir yr ymweliadau â'r cysylltiadau partner dethol gan ddau adolygwr a'r ysgrifennydd/cydlynydd adolygu. Byddent yn galluogi i'r tîm ffurfio barn am ddibynadwyedd y dystiolaeth y mae'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn dibynnu arni i'w fodloni ei hun fod safonau academaidd ei ddyfarniadau a'i gredydau'n ddiogel a bod ansawdd y cyfleoedd dysgu'n briodol. Byddent hefyd yn darparu gwybodaeth am:

- y ffordd y mae'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn casglu agweddau perthnasol o'r Seilwaith Academaidd i mewn i'w ddarpariaeth gydweithredol
- ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr sy'n astudio drwy gysylltiadau partner, a sut mae adborth gan fyfyrwyr mewn darpariaeth gydweithredol am eu profiad fel dysgwyr yn cael ei chasglu, ei dadansoddi a'i defnyddio gan y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol

- y rhan a chwaraeir gan fyfyrwyr mewn darpariaeth gydweithredol ym mhroses reoli ansawdd y ddarpariaeth sy'n arwain at eu dyfarniadau
- sut mae'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a gyhoeddir am ansawdd y ddarpariaeth gydweithredol sy'n gysylltiedig a'i ddyfarniadau a safonau academaidd y dyfarniadau a'r credydau hynny, gan gynnwys manylebau rhaglen
- faterion yn ymwneud â datblygiad a chefnogaeth staff a roddir gan y sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol gyda chysylltiadau partner i gefnogi ei ddarpariaeth gydweithredol
- sut mae'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol yn cefnogi sefydliadau partner i ymdrin â gwelliant - gan gymryd camau pwrpasol ar lefel sefydliadol i wella ansawdd cyfleoedd dysgu.

18 Bydd pob ymweliad â chysylltiad partner yn para diwrnod a bydd fel arfer yn cynnwys cyfarfodydd gydag:

- aelodau uwch o'r sefydliad partner, i helpu'r tîm adolygu i ddeall rheolaeth gyffredinol a strategol y cysylltiad o safbwynt y partner
- aelodau myfyrwyr ar y pwyllgorau cyswllt ymgynghorol staff-myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer dyfarniadau'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol drwy'r cysylltiad
- aelodau o staff cefnogi ac addysgu'r partner sy'n cymryd rhan yn y broses o gefnogi'r cysylltiad yn weithredol.

19 Bydd ymholiadau'n canolbwyntio ar y ffordd mae gweithdrefnau'r sefydliad dyfarnu neu'r sefydliad cyfrifol ar gyfer trefniadau cydweithredol wedi'u gweithredu o fewn y cysylltiad, gan dalu sylw arbennig i effeithiolrwydd adolygiadau'r sefydliad dyfarnu o'r bartneriaeth, y ddarpariaeth a safonau academaidd y dyfarniadau a'r credydau.

Yr ymweliad adolygu

20 Bydd yr ymweliad adolygu â'r sefydliad dyfarnu'n dilyn y strwythur sydd wedi'i amlinellu ym mharagraffau 63 i 67 Adran I: Llawlyfr.

Adroddiadau

21 Bydd yr adroddiad sy'n codi o adolygiad hybrid yn dilyn strwythur Atodiad D. Mae strwythur yr adroddiad sy'n codi o adolygiad ar wahân o ddarpariaeth gydweithredol wedi'i amlinellu yn Atodiad P.

Atodiad N: Amserlen y dyddiadau allweddol ar gyfer adolygu darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd hybrid

Wythnos	Gweithgaredd
Crynodeb paratoadol, blwyddyn o flaen llaw fel arfer	Mae ASA yn rhoi crynodeb o'r broses Adolygiad Sefydliadol i sefydliadau fel gweithgaredd hybrid
O leiaf 36 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = y cyfarfod cychwynnol	Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) yn ymweld â'r sefydliad dyfarnu i gyfarfod cynrychiolwyr y sefydliad Y CC yn darparu gwybodaeth am y broses adolygu ac yn rhoi arweiniad ar ddogfen hunanwerthusiad (DH) y sefydliad dyfarnu
32 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn cadarnhau gyda'r sefydliad dyfarnu beth yw maint ac aelodaeth y tîm adolygu a nifer y cysylltiadau partner sydd i dderbyn ymweliad
18 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn cyflwyniad y myfyrwyr a DH y sefydliad dyfarnu
16 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn cadarnhau'r cysylltiadau partner dethol sydd i dderbyn ymweliad
8 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn gan y sefydliad dyfarnu wybodaeth ychwanegol am y cysylltiadau partneriaeth sydd i dderbyn ymweliad
5 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = yr ymweliad briffio	Y tîm adolygu a'r CC yn mynd ar ymweliad briffio i'r sefydliad dyfarnu
5 wythnos cyn yr ymweliad adolygu hyd at 1 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = ymweliadau â chysylltiadau partner	Mae'r tîm adolygu'n gwneud ymweliadau â chysylltiadau partner
Yr ymweliad adolygu	Yr ymweliad adolygu â'r sefydliad dyfarnu
2 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Y tîm adolygu'n cytuno ar lythyr sy'n amlinellu canfyddiadau'r adolygiad a anfonir at bennaeth y sefydliad dyfarnu gan y CC
8 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn anfon adroddiad adolygu drafft at bennaeth y sefydliad dyfarnu
12 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn sylwadau am yr adroddiad drafft gan y sefydliad dyfarnu
16 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Caiff yr adroddiad adolygu ei lunio'n derfynol a'i anfon at bennaeth y sefydliad dyfarnu
18 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn datganiad y sefydliad dyfarnu ar gyfer ei gyhoeddi gyda'r adroddiad adolygu
23 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Cyhoeddi'r adroddiad adolygu

Atodiad O: Amserlen y dyddiadau allweddol ar gyfer adolygu darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd ar wahân

Wythnos	Gweithgaredd
Crynodeb paratoadol, blwyddyn o flaen llaw fel arfer	Mae ASA yn darparu esboniad i sefydliadau ar adolygiad y ddarpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd ar wahân
O leiaf 36 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = yr ymweliad cychwynnol	Y Cyfarwyddwr Cynorthwyol (CC) yn ymweld â'r sefydliad dyfarnu i gyfarfod cynrychiolwyr y sefydliad Y CC yn darparu gwybodaeth am y broses adolygu ac yn rhoi arweiniad ar ddogfen hunanwerthusiad (DH) y sefydliad dyfarnu
32 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn cadarnhau gyda'r sefydliad dyfarnu beth yw maint ac aelodaeth y tîm adolygu a nifer y cysylltiadau partner sydd i dderbyn ymweliad
18 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn cyflwyniad y myfyrwyr a DH y sefydliad dyfarnu
16 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn cadarnhau'r cysylltiadau partner dethol sydd i dderbyn ymweliad
8 wythnos cyn yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn gan y sefydliad dyfarnu wybodaeth ychwanegol am y cysylltiadau partneriaeth sydd i dderbyn ymweliad
6 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = yr ymweliad briffio	Y tîm adolygu a'r CC yn mynd ar ymweliad briffio i'r sefydliad dyfarnu
6 wythnos cyn yr ymweliad adolygu hyd at 1 wythnos cyn yr ymweliad adolygu = ymweliadau â chysylltiadau partner	Mae'r tîm adolygu'n gwneud ymweliadau â chysylltiadau partner
Yr ymweliad adolygu	Yr ymweliad adolygu â'r sefydliad dyfarnu
2 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Y tîm adolygu'n cytuno ar lythyr sy'n amlinellu canfyddiadau'r adolygiad a anfonir at bennaeth y sefydliad dyfarnu gan y CC
8 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn anfon adroddiad adolygu drafft at bennaeth y sefydliad dyfarnu
14 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn sylwadau am yr adroddiad drafft gan y sefydliad dyfarnu
18 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Caiff yr adroddiad adolygu ei lunio'n derfynol a'i anfon at bennaeth y sefydliad dyfarnu
20 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	ASA yn derbyn datganiad y sefydliad dyfarnu ar gyfer ei gyhoeddi gyda'r adroddiad adolygu
24 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu	Cyhoeddi'r adroddiad adolygu

Atodiad P: Strwythur adroddiad yr Adolygiad Sefydliadol lle ystyrir darpariaeth gydweithredol fel gweithgaredd ar wahân

Yr adroddiad

Cyflwyniad

Beirniadaethau

Nodweddion o arferion da

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Canfyddiadau

- Fframwaith rheolaeth academaidd ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Rheolaeth sefydliadau ar safonau academaidd ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Rheolaeth sefydliadau ar gyfleoedd dysgu ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Agwedd y sefydliad tuag at reoli gwella ansawdd ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Trefniadau'r sefydliad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar gyfer trefniadau cydweithredol
- Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi ar gyfer trefniadau cydweithredol

Atodiad Q: Strwythur ar gyfer dogfen hunanwerthusiad yr Adolygiad Sefydliadol cydweithredol

Dylai'r DH ddarparu:

a cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, gan gynnwys cenhadaeth y sefydliad gydag amlinelliad o'r datblygiadau ers yr adolygiad diwethaf (a gwaith dilyniant canol-rhaglen) a'r gweithredu a ddigwyddodd ar ganlyniadau'r adolygiad diwethaf (a gwaith dilyniant canol-rhaglen) a throsolwg o'r fframwaith rheoli academaidd mewn perthynas â threfniadau cydweithredol

b myfyrio ar ddull y sefydliad yn awr ac yn y dyfodol o:

- sicrhau bod ei safonau academaidd mewn perthynas â threfniadau cydweithredol yn ddiogel, a sut y caiff y dull yma ei werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas
- sicrhau bod y cyfleoedd dysgu ar gyfer y myfyrwyr mewn perthynas â threfniadau cydweithredol yn addas a bod y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr yn eu helpu i wneud defnydd da o'r cyfleoedd hynny, a sut y caiff yr agwedd yma ei werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r pwrpas
- yr agwedd gyffredinol a ddefnyddir gan y sefydliad i reoli gwella ansawdd mewn perthynas â threfniadau cydweithredol, sut mae'n datblygu ethos sy'n disgwyl ac yn annog gwella cyfleoedd dysgu, yn annog, yn cefnogi ac yn lledaenu arferion da ac yn canfod cyfleoedd i wella, a myfyrio ar effeithiolrwydd ei agwedd

c amlinelliad o ddull y sefydliad o gynnal safonau academaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth rhaglenni ymchwil ôl-raddedig mewn perthynas â threfniadau cydweithredol, a myfyrio pa mor effeithiol ydyw

d amlinelliad o drefniadau'r sefydliad i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei chyhoeddi am ei ddarpariaeth addysgol a'r safonau academaidd y mae'n eu cefnogi mewn perthynas â threfniadau cydweithredol yn gywir ac yn gyflawn.

Strwythur a awgrymir ar gyfer y DH

Efallai y byddai o gymorth i'r sefydliad ddefnyddio'r penawdau dilynol, gan gysylltu'r rhain fel y bo'n briodol ag (a) a (d) uchod:

- Sefydliad a chenhadaeth (A)
- Datblygiadau ers yr adolygiad diwethaf (B)
- Fframwaith rheolaeth academaidd ar gyfer trefniadau cydweithredol (C)
- Cymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni ar gyfer trefniadau cydweithredol (D)
- Cyfranogaeth allanol mewn achrediad ac adolygiad mewnol ar gyfer trefniadau cydweithredol (E)
- Adolygiad ar lefel y rhaglen ac achrediad gan gyrff allanol ar gyfer trefniadau cydweithredol (F)

- Arholi allanol ar gyfer trefniadau cydweithredol (G)
- Rheoliadau a pholisïau asesu ar gyfer trefniadau cydweithredol (H)
- Gwybodaeth rheoli ar gyfer trefniadau cydweithredol (I)
- Seilwaith Academaidd a phwyntiau cyfeirio allanol eraill ar gyfer trefniadau cydweithredol (J)
- Adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr ar gyfer trefniadau cydweithredol (K)
- Cynrychiolaeth y myfyrwyr a rôl y myfyrwyr mewn sicrhau ansawdd ar gyfer trefniadau cydweithredol (L)
- Cysylltiadau rhwng gwaith ymchwil neu weithredu ysgolheigaidd a chyfleoedd dysgu ar gyfer trefniadau cydweithredol (M)
- Dulliau eraill o astudio, gan gynnwys dulliau o bell a dulliau dosranedig ar gyfer trefniadau cydweithredol (N)
- Adnoddau i ddysgu ar gyfer trefniadau cydweithredol (O)
- Polisi mynediad ar gyfer trefniadau cydweithredol (P)
- Arweiniad, cefnogaeth ac arolygiad academaidd ar gyfer trefniadau cydweithredol (Q)
- Cefnogaeth ac arweiniad personol ar gyfer trefniadau cydweithredol (R)
- Polisi cwynion ac apeliadau ar gyfer trefniadau cydweithredol (S)
- Penodi, gwerthuso a chosbi staff ar gyfer trefniadau cydweithredol (T)
- Cefnogaeth i staff (gan gynnwys datblygiad staff) ar gyfer trefniadau cydweithredol (U)
- Dull y sefydliad o wella ansawdd a safonau ar gyfer trefniadau cydweithredol (V)
- Trefniadau'r sefydliad i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ar gyfer trefniadau cydweithredol (W)
- Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi ar gyfer trefniadau cydweithredol (X).